



Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Ardal Basn Afon Hafren 2015-2021

RHAN B – Is-ardaloedd yn Ardal Basn Afon Hafren

Rhagfyr 2015

Cyhoeddwyd gan:

Environment Agency
Horizon house, Deanery Road,
Bristol BS1 5AH
E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk
www.gov.uk/environment-agency

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd CF24 0TP
E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
<http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk>

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn o'n catalog cyhoeddiadau:
www.gov.uk/government/publications

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn oddi ar ein gwefan:
<http://www.cyfoethnaturiol.cymru>

neu ein Canolfan Gyswllt Genedlaethol i Gwsmeriaid:
Ff: 03708 506506

neu ein Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid:
Ff: 0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8am - 6pm)

E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk.

E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

© Environment Agency 2015

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd o flaen llaw.

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru o

flaen llaw.

Cynnwys

| | |
|---|-----|
| Cynnwys | iii |
| Geirfa a Byrfoddau..... | iv |
| 1. Diwyg y ddogfen hon..... | 6 |
| 2. Is-ardaloedd yn Ardal Basn Afon Hafren | 7 |
| 2.1. Adran Cymru yn unig..... | 9 |
| 3. Casgliadau, amcanion a mesurau i reoli perygl llifogydd yn nalgylchoedd Ardal Basn Afon Hafren | 17 |
| 4.1a. Dalgylch Ucheldir Hafren yng Nghymru | 20 |
| 4.4. Dalgylch Afon Tefeidiad | 27 |
| 4.7a. Dalgylch Afon Gwy yng Nghymru..... | 37 |
| 4.7b. Dalgylch Afon Gwy yn Lloegr | 44 |
| 4.8. Dalgylch Afon Wysg | 55 |
| 4.9. Dalgylch Cymoedd y De-ddwyrain | 63 |

Geirfa a Byrfoddau

| | |
|--|---|
| AAS - SEA | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| ACA - SAC | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| ACPLI - PFRA | Asesiad Cychwynnol Perygl Llifogydd – roedd gofyn cyhoeddi'r rhain erbyn Rhagfyr 2011 a dyma'r cam cyntaf i gyflenwi'r Rheoliadau. |
| AEA | Asesiad Effaith Amgylcheddol |
| AGA - SPA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| ALILIA - LLFA | Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol |
| APLIS - SFRA | Asesiad Perygl Llifogydd Strategol |
| Ardal Basn Afon – River Basin District - RBD | Dyma'r unedau adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Llifogydd. |
| Ardal Perygl Llifogydd - FRA | Ardaloedd lle mae'r perygl o lifogydd o ganlyniad i beryglon llifogydd lleol yn sylweddol, fel y dynodir dan y Rheoliadau Perygl Llifogydd. |
| Ardaloedd Trawsffiniol - Cross Border Areas | Dyma'r ardaloedd a ddynodwyd yn 'drawsffiniol' dan Reoliadau Perygl Llifogydd (Ardaloedd Trawsffiniol) 2012 (OS Rhif 1102). |
| ARhC - HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: asesiad a wneir mewn perthynas â safle a ddynodwyd dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar |
| Awdurdodau rheoli risg | Sefydliad sydd â rôl allweddol mewn rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol fel y diffinnir yn y Ddedf. Y rhain yw Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau llifogydd lleol arweiniol, cynghorau dosbarth lle nad oes awdurdod unedol, internal drainage boards, cwmnïau dŵr, ac awdurdodau prifffyrdd. |
| CaBA | Dull ar sail dalgylch: dull o ymdrin â chynllunio amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu lleol a Phartneriaethau |
| CGB | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru. Ymgwymerodd CNC â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru ar 1 ^{af} Ebrill 2013. |
| Cronfa ddŵr | Llyn naturiol neu artiffisial lle cesglir dŵr a'i storio hyd nes y mae ei angen. Gellir defnyddio cronfeydd dŵr i ddiben dyfrhau, hamdden, darparu cyflenwad dŵr ar gyfer anghenion trefol, pŵer trydan dŵr neu reoli llif dŵr. |
| CRhAS - SAMP | Cynllun Rheoli Asedau System |
| CRhBA - RBMP | Cynllun Rheoli Basn Afon – cynllun sy'n ofynnol gan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Ewrop. |
| CRhDW | Cynllun Rheoli Dŵr Wyneb |
| CRhLID | Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch |
| CRhPLI - FRMP | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd – cynllun a gynhrychir i gyflenwi gofynion y Rheoliadau Perygl Llifogydd. |
| CRhT - SMP | Cynllun Rheoli Traethlin |
| Cyfarwyddeb Llifogydd | Cyfarwyddeb Llifogydd Ewrop (2007/60/EC) ar asesu a rheoli peryglon llifogydd. |
| Cyrsiau dŵr cyffredin | Pob cwrs dŵr nad yw wedi cael ei dynodi'n Brif Afon, ac sy'n gyfrifoldeb i Awdurdodau Lleol, neu lle bônt yn bodoli, i Fyrddau Draenio Mewnol. |
| Dalgylch | Gwahanfa ddŵr system afon dŵr wyneb |
| DCLG | Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| EA | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| FfDLI - LDF | Fframwaith Datblygu Lleol |
| GNG - NNR | Gwarchodfa Natur Genedlaethol |

| | |
|---|--|
| Grŵp Cynghori Trawsffiniol - Cross Border Advisory Group (CBAG) | Sefydlwyd dan Reoliadau Perygl Llifogydd (Ardaloedd Trawsffiniol) (OS Rhif 1102). Grŵp statudol o gynrychiolwyr o SEPA, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol o fewn yr ardaloedd trawsffiniol. |
| Grwpiau Arfordirol | Grwpiau gwirfoddol amddiffyn yr arfordir sydd wedi eu ffurfio o awdurdodau rhanbarthau morol a chyrrff eraill sydd â chyfrifoldeb i amddiffyn yr arfordir |
| Gweithio gyda phrosesau naturiol: | Cymryd camau i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordir drwy ddiogelu, adfer ac efelychu swyddogaeth reoleiddio naturiol dalgylchoedd, afonydd, gorlifdir ac arfordiroedd. Enghraifft o hyn yw defnyddio tir i storio dŵr llifogydd dros dro draw oddi wrth ardaloedd sydd â risg uchel. |
| Ha | Hectarau |
| HHR - SAM | Heneb Hynafol Restredig |
| Km | Cilometrau |
| Llifogydd afon | Mae'n digwydd pan fo lefelau'r dŵr mewn sianel yn boddi capasiti'r sianel. |
| Llifogydd carthffosydd | Llifogydd a achosir gan garthffosydd wedi gorlenwi, gan rwystrau neu ddiffygion yn y rhwydwaith carthffosiaeth |
| Llifogydd dŵr daear | Mae'n digwydd pan fo lefelau'r dŵr yn y ddaear yn codi uwchben yr arwyneb naturiol. Mae ardaloedd isel â strata athraidd danynt yn arbennig o agored. |
| Llifogydd dŵr wyneb | Llifogydd dŵr glaw (gan gynnwys eira a dyodiad arall) nad yw wedi mynd i ddyfrffordd, system ddraenio neu garthffos gyhoeddus. |
| Llywodraeth | Defnyddir y term 'llywodraeth' yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at Defra (Adran yr Amgylchedd, Llifogydd a Materion Gwledig) a Llywodraeth Cymru. |
| MSFW | Making Space for Water |
| Prif Afon | Dyfrffordd a ddangosir felly ar y map Prif Afonydd, ac mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldebau a phwerau drosti |
| PRhLIAau - RFCCs | Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordirol |
| Ramsar | Gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol, a ddynodwyd dan Gonfensiwn Ramsar |
| RhDA | Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd |
| Rheoli Adnoddau Naturiol | Gofalu am (neu reoli) adnoddau naturiol megis tir, dŵr, aer, pridd, planhigion ac anifeiliaid, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y modd y mae eu rheoli'n effeithio ar ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory. |
| RhPLI - FRM | Rheoli Perygl Llifogydd |
| RhPLIEA – FCERM | Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol |
| SBGS - CWS | Safle Bywyd Gwyllt Sirol |
| SDC - SuDS | Systemau Draenio Cynaliadwy |
| SLU - HLS | Stiwardiaeth (Amgylcheddol) Lefel Uwch |
| SoDdGA - SSSI | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| Strategaeth Genedlaethol ar gyfer FCERM | Strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol: dyma'r strategaethau sy'n cael eu paratoi dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. |
| Strategaeth Leol ar gyfer RhPLI | Strategaeth rheoli perygl llifogydd lleol a gynhrychir gan ALILIA dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. |
| UB | Uned Bolisi |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| UKCIP | <i>United Kingdom Climate Impact Projections</i> |

1. Diwyg y ddogfen hon

Mae Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd wedi'u rhannu'n bedair adran i helpu'r darllenwyr i ganfod a darllen gwybodaeth sy'n berthnasol iddyn nhw. Dyma Ran B. Mae'r cynllun wedi'i rhannu'n bedair rhan.

| Enw | Cynulleidfa |
|---|---|
| Dogfen Gryno | Ar gyfer pobl sydd eisiau trosolwg lefel uchel o'r cynllun |
| Rhan A: Cefndir a gwybodaeth am ddalgylch yr afon | Ar gyfer pobl sydd eisiau rhywfaint o gefndir deddfwriaethol a gwybodaeth lefel uchel am ddalgylch yr afon |
| Rhan B: Crynodebau o'r Dalgylchoedd | Ar gyfer pobl sydd eisiau manylion yr is-ardaloedd ac ystadegau llifogydd. Mae'r adran hon yn cynnwys y dalgylchoedd sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd rheoli'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, Ardaloedd Perygl Llifogydd (a nodwyd drwy Asesiad Cychwynnol o'r Perygl Llifogydd) a meysydd strategol eraill ledled dalgylch yr ardal basn afon. |
| Rhan C: Atodiadau | Ar gyfer pobl sydd eisiau gweld y mesurau manwl a nodwyd ar gyfer cymunedau unigol yn Lloegr |

Mae'r mesurau sy'n ymwneud â Chymru yn unig i'w cael yn yr adran ar Afon Hafren yng Nghymru. Mae'r tablau mesurau ar gyfer yr holl ddalgylchoedd yng Nghymru i'w cael yn Rhan B, nid yn Rhan C: Mae'r atodiadau, fel y mesurau Cymreig, yn ymwneud â'r cymunedau sydd â'r perygl mwyaf yn ôl dalgylch. Mae'r mesurau Cymreig yn cael eu diweddarau'n gyson, a dangosol yw'r mesurau sydd yn y cynllun hwn ond maent yn gywir ar adeg cyhoeddi. Mae'r mesurau ledled yr Ardal Basn Afon sy'n effeithio ar Ddalgylchoedd Cymreig i'w cael yn yr Atodiadau.

Mae'r mesurau sy'n ymwneud ag Ardal Basn Afon, Afon Hafren yn Lloegr a'r dalgylchoedd Seisnig wedi'u cynnwys yn yr atodiadau.

Mae Rhan B yn cyflwyno pob un o'r is-ardaloedd yn eu tro. Mae'r adran hon yn amlinellu'r dalgylchoedd yn seiliedig ar ddalgylchoedd rheoli'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, sy'n cynnwys yr Ardal Basn Afon, yna'r Ardaloedd Perygl Llifogydd (a ganfyddir drwy'r [Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynnol](http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140328084622/http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/135534.aspx) <<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140328084622/http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/135534.aspx>>) ac ardaloedd strategol eraill ledled yr Ardal Basn Afon.


2. Is-ardaloedd yn Nalgylch Afon Hafren

Cyflwyniad

Mae nifer o is-ardaloedd o fewn Ardal Basn Afon Hafren (RBD), fel y gwelir yn Ffigur 2.1 ac a amlinellir isod. Y rhain yw:

- Rhan Seisnig yr RBD
- Rhan Gymreig yr RBD
- Dalgylchoedd (sydd wedi'u nodi yn unol â Dalgylchoedd Rheoli'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD))
- Ardaloedd Perygl Llifogydd a nodir yn yr Aseiad Perygl Llifogydd Cychwynnol: ardaloedd sy'n gofyn am gynlluniau rheoli perygl llifogydd ar gyfer tarddiadau llifogydd yn lleol.

Ffigur 2.1: Dalgylchoedd, Ardaloedd perygl Llifogydd ac ardaloedd yng Nghymru a Lloegr yn unig yn nalgylch basn afon Hafren



Y rhan o'r RBD yn Lloegr / Cymru: Lle bo modd, mae'r cynllun hwn wedi cael ei gydyntu ar raddfa RBD sy'n ymdrin â holl RBD Hafren. Gan fod RBD Hafren yn ymdrin â rhannau o

Lloegr a Chymru, efallai fod yna elfennau o waith rheoli perygl llifogydd nad ydynt yn gymwys i'r holl RBD ac efallai eu bod yn ymwneud yn unig â'r adran yng Nghymru neu'r adran yn Lloegr oherwydd gwahanol weinyddiaethau. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys dwy adran er mwyn ystyried y rhain yn eu tro:

- Afon Hafren yn Lloegr
- Afon Hafren yng Nghymru

Bydd hyn yn golygu bod modd i gasgliadau, amcanion a mesurau ar gyfer perygl gael eu datblygu ar gyfer Afon Hafren yn Lloegr fel ardal wahanol ac Afon Hafren yng Nghymru fel ardal wahanol. Mae dalgylchoedd Afon Tefeidiad, Ucheldir Hafren ac Afon Gwy yn cynnwys ardaloedd o Afon Hafren yng Nghymru a Lloegr.

Dalgylchoedd: Dyma'r ardaloedd lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn canolbwyntio eu gwaith ymgysylltu er mwyn cael dull ar sail dalgylch o reoli dŵr. Mae 10 o ddalgylchoedd yn RBD Hafren, fel yn y rhestr isod:

- Ucheldir Hafren (trawsffiniol)
- Rhan Ganol Afon Hafren yn Swydd Henffordd (Afon Hafren yn Lloegr)
- Rhan Ganol Afon Hafren yn Swydd Gaerwrangon (Afon Hafren yn Lloegr)
- Afon Tefeidiad (trawsffiniol)
- Afon Avon yn Swydd Warwick (Afon Hafren yn Lloegr)
- Dyffryn Hafren (Afon Hafren yn Lloegr)
- Afon Gwy (trawsffiniol)
- Afon Wysg (Afon Hafren yng Nghymru)
- Cymoedd y De-ddwyrain (Afon Hafren yng Nghymru)
- Nentydd Bryste Avon a Gogledd Gwlad yr Haf (Afon Hafren yn Lloegr)

Ardaloedd Perygl Llifogydd: Dyma ardaloedd a nodwyd drwy Asesiadau Cychwynnol Perygl Llifogydd fel ardaloedd sydd â pherygl sylweddol o lifogydd lleol (er enghraifft dŵr wyneb ffo, dŵr daear a chyrsgiau dŵr cyffredin), ac mae angen paratoi FRMP ar eu cyfer.

Mae Ardal Perygl Llifogydd Bryste wedi cael ei chynnwys o fewn y FRMP hwn ac mae'n gyfan gwbl o fewn dalgylch Nentydd Bryste Avon a Gogledd Gwlad yr Haf.


Mae Ardal Perygl Llifogydd Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi cael ei chynnwys o fewn FRMP Humber.

Mae'r Ardaloedd Perygl Llifogydd yng Nghymru yn FRMP ar wahân.

2.1. Adran Cymru yn unig

Casgliadau ac amcanion ar gyfer yr adran sydd yng Nghymru yn unig o Ardal Basn Afon Hafren

Bydd yr adran hon yn amlinellu'r ffyrdd gwahanol o weithio sydd gan Gymru o gymharu â'r rhai a nodir yn Rhan A, Adran 8. Bydd yn ymdrin â'r casgliadau a'r amcanion sydd gan Gymru, a'r dulliau a ddefnyddiwyd i sicrhau bod yr holl amcanion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni.



Ffigur 2.2: Adran yr ardal sydd o fewn Cymru yn unig.

Casgliadau:

Mae'r perygl llifogydd yn yr ardal Gymreig o Ardal Basn Afon (RBD) Hafren i'w gael yn bennaf yn yr ardaloedd llanw a dalgychoedd Cymoedd y De-ddwyrain, gyda thros hanner y 50 o gymunedau sydd fwyaf mewn perygl yng Nghymru i'w cael o fewn yr ardal fasn hon. Gellir rhannu'r perygl llifogydd yn ddau fath gwahanol, gyda pherygl y llanw'n hawdd ei ragweld a'r rhybuddion llifogydd yn darparu'n gymharol dda ar ei gyfer, a'r llifogydd llanw yn anos ei ragweld a rhybuddio ar ei gyfer. Mae Cymoedd y de yn drefol iawn, gyda nifer o seilwaith pwysig ac ardaloedd sy'n bwysig yn economaidd, tra bo dalgylchoedd uwch afonydd Gwy a Hafren yn fwy gwledig lle mai ffermio defaid a choedwigaeth yw'r gweithgareddau pwysicaf.

Mae'r prif gymunedau yn yr ardaloedd Gymreig i'w cael yng nghymoedd y De ar hyd afonydd Taf, Rhondda, Cynon a rhannau isaf afon Wysg, ac mae Casnewydd a Chaerdydd o fewn yr ardal. Rheolir y perygl yn bennaf gan gynlluniau hirsefydlog i liniaru llifogydd, a godwyd yn y 30 i'r 40 mlynedd ddiwethaf a'u cynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'i ragflaenwyr.

Mae'r ardaloedd Gymreig o'r basn afon yn cynnwys cronfeydd dŵr pwysig yn y blaenddwyr, megis Pontsticill, Cronfa'r Bannau, Cantref a Llwyn-onn ar afon Taf, Clywedog ar afon Hafren, Llyn Efyrnwy a rhaeadr Elan ar afon Gwy.

Dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio pob cronfa ddŵr yng Nghymru sydd â chapasiti o fwy na 25,000 o fetrau ciwbig neu ragor uwchben lefel y ddaear, ac a allai ddianc petai argae'n methu. Ar ôl i ddeddfwriaeth newydd ddod i rym, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd drwy broses o nodi pa rai o'r cronfeydd hyn sy'n rhai 'risg uchel'. Cronfeydd 'risg uchel' fydd y rhai y credir y byddent yn gallu peryglu bywyd dynol petai dŵr yn cael ei ryddhau'n ddireolaeth.

Yn y dyfodol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gynnal cofrestr o'r holl gronfeydd dŵr sydd â chapasiti o fwy na 10,000 o fetrau ciwbig uwchben lefel y ddaear, ond dim ond y cronfeydd â 'risg uchel' y byddant yn eu rheoleiddio'n llwyr; bydd angen lefel is o reoleiddio ar gronfeydd sydd â llai o risg.

Amcanion:

Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Berygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi nodi'r fframwaith ar gyfer gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

- Lleihau'r canlyniadau at gyfer unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd rhag llifogydd ac erydu arfordirol
- Codi ymwybyddiaeth pobl ac ymgysylltu â nhw ynghylch yr ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol
- Darparu ymateb effeithiol a pharhaol i lifogydd ac achosion o erydu arfordirol;
- Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl.

Mae pob cam a gymerir yng Nghymru i reoli perygl llifogydd yn ceisio cyflawni amcanion y strategaeth genedlaethol i Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

O dan amcanion y Strategaeth Genedlaethol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu cyfres o saith amcan ar gyfer y cynllun hwn. Cafodd y rhan fwyaf o'r amcanion eu datblygu a'u cytuno gan Grwpiau Llywio'r CFMP ar sail dealltwriaeth o berygl llifogydd a materion sy'n bwysig nawr a/neu yn y dyfodol. Adolygwyd eu haddasrwydd o gymharu â Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru a gofynion FRMP, ac ystyrir eu bod yn dal i adlewyrchu'n ddigonol brif amcanion y gwaith rheoli perygl llifogydd yng Nghymru. Datblygwyd yr is-amcanion drwy ystyried y tair prif agwedd ar reoli perygl llifogydd yn gynaliadwy:

- Cymdeithasol: pobl a chymunedau
- Economaidd: y gost bosibl a'r budd economaidd
- Amgylcheddol: treftadaeth ddiwylliannol, tirwedd ac amrywiaeth cynefinoedd.

Egwyddorion rheoli perygl llifogydd yn gynaliadwy yw'r hyn a ddarperir o hyd gan waith Cyfoeth Naturiol Cymru ar reoli perygl llifogydd.

Mae arferion cynaliadwy ym maes perygl llifogydd yng Nghymru yn canolbwyntio fwyfwy ar weithio gyda phrosesau naturiol i greu datrysiadau mwy hyblyg ac addasadwy sy'n darparu mwy o wytnwch rhag hinsawdd ansicr a newidiol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd ati i geisio cyfleoedd i wneud gwaith rheoli perygl llifogydd yn naturiol drwy ddefnyddio'r holl offer priodol sydd ar gael inni, megis y mapiau Creu Coetir. Drwy weithio gyda phrosesau naturiol i reoli perygl llifogydd, darperir manteision eraill megis adfer/cynnal capasiti draenio pridd, creu/adfer cynefinoedd, gwella bioamrywiaeth, cipio carbon, lleihau gwaddodiad a gwella ansawdd dŵr. Mae gan y dull y potensial i sicrhau mwy o werth am arian oherwydd mae'n ei gwneud yn bosibl i ddatblygu prosiectau amlswyddogaethol sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystemau a manteision i gymdeithas.

Drwy gynlluniau i reoli perygl llifogydd a phroses cynlluniau rheoli basn afonydd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penderfynu lle mae ardaloedd dyfrol yn cyd-daro â chymunedau sydd mewn perygl er mwyn canfod cyfleoedd i ddarparu rheolaeth fwy holistig o adnoddau naturiol drwy brosiectau a gweithrediadau i reoli perygl llifogydd.

Pan welir problem llifogydd yng Nghymru, y cam cyntaf yw deall yn llwyr beth yw'r achos er mwyn penderfynu pa ymateb rheolaethol fyddai'n briodol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio ystyried datrysiadau anstrwythurol yn gyntaf a gweithredu'r rhain lle mae modd, megis rhybuddion llifogydd a chodi ymwybyddiaeth fel y bo pobl a chymunedau'n gallu cynllunio a pharatoi ar gyfer llifogydd. Os yw'r perygl llifogydd ar lefel a fyddai, heb ymyrraeth, yn achosi bygythiad difrifol i bobl ac eiddo, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn ymgynghoriad â'r gymuned a'r arbenigwyr amgylcheddol, yn ystyried datrysiadau i leihau a rheoli'r bygythiad o lifogydd.

Drwy'r broses hon o asesu gwahanol opsiynau ar gyfer rheoli perygl, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried yr holl opsiynau a allai leihau'r perygl llifogydd, gan gynnwys sut y mae'r afon yn rhyngweithio gyda'r gorlifdir naturiol ac opsiynau i gadw dŵr, ymysg yr holl ddatrysiadau eraill. Mae opsiynau posibl yn cael eu hystyried o ran eu dichonoldeb technegol a'u cost, ymysg llawer o ffactorau eraill, er mwyn dewis yr opsiwn gorau. Os gwelir bod gan opsiwn y posibilrwydd o gadw dŵr yn agos at y fan lle disgynnodd, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr, rheolwyr tir a chymunedau er mwyn datblygu'r datrysiad a fydd nid yn unig yn arafu llif y dŵr i'r cwrs dŵr ond hefyd yn gallu creu gwell tirwedd ac amgylchedd.

Mae rheoli adnoddau naturiol mewn dull integredig yn elfen allweddol o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y ddeddf Gynllunio a Bil yr Amgylchedd, ynghyd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, yn nodi

fframwaith statudol newydd a phroses ar gyfer rheoli'n integredig a defnyddio'n gynaliadwy yr adnoddau naturiol yng Nghymru.

Bydd y fframwaith newydd hwn ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn adeiladu ar ddull ecosystem y Cenhedloedd Unedig, a ddiffiniwyd fel 'strategaeth integredig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol'. Mae disgwyl i Fil yr Amgylchedd gael Cydsyniad Brenhinol erbyn gwanwyn 2016, a bydd yn deddfu dros gael proses reoli fwy cydgysylltiedig ac yn canolbwyntio ar sicrhau Cymru iachach a mwy cydnerth drwy fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae hyn yn dechrau drwy gyflwyno proses flaenoriaethu newydd – i ganfod a disgrifio'r prif bwysau ar adnoddau naturiol ac edrych y cyfleoedd ar gyfer rheoli'r adnoddau hyn yn gynaliadwy o fewn ardal wedi'i diffinio. Drwy gydnabod a deall yn well beth yw'r heriau a wynebir, gellir defnyddio'r offer a ddefnyddir i ddiogelu a sicrhau manteision amgylcheddol (ac mae cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn un o'r rheini) mewn modd mwy integredig a chydgyssylltiedig – i adlewyrchu anghenion y lle hwnnw'n well. Mae dull integredig o reoli adnoddau naturiol wrthi'n cael ei dreialu ledled Cymru mewn tair dalgylch, sef Dyfi, Tawe a Rhondda.

Mae'r fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn dal i gael ei datblygu yng Nghymru, ond mae'r cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn adlewyrchu elfennau hanfodol y dull newydd yn y ffyrdd a ganlyn:

Bod yn seiliedig ar ardal.

Mae'r cynlluniau rheoli perygl llifogydd wedi'u gosod ar amrywiaeth o raddfeydd gofodol. Mae hyn yn golygu bod modd i'r ffocws ar gyfer rheoli perygl llifogydd gael ei ddarparu ar y raddfa ofodol sydd fwyaf perthnasol i gymunedau, rhanddeiliaid a lefel y perygl llifogydd.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r amser.

Mae'n hanfodol cynnwys rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, cymunedau, datblygwyr a diwydiant, drwy gydol y broses o lunio a gweithredu'r cynlluniau rheoli perygl llifogydd. Bydd hyn yn sicrhau bod ymdrechion yn cael eu targedu yn y llefydd iawn.

Cynllunio a chyflwyno ar y raddfa fwyaf priodol.

Mae'r Gyfarwydddeb Llifogydd yn ei gwneud yn ofynnol i lunio cynlluniau rheoli a'u hadolygu ar raddfa basn yr afon. Ar gyfer rhai camau rheoli, mae'r raddfa hon yn briodol. Ar gyfer rhai eraill, mae'n well ystyried camau rheoli ar raddfa'r dalgylch neu'r gymuned. Mae'r gwaith rheoli perygl llifogydd yn cael ei gynllunio ar y raddfa sydd fwyaf priodol er mwyn darparu fwyaf i gymunedau a rhanddeiliaid.

Cynllunio ar gyfer y tymor hir.

I greu Cymru gynaliadwy, mae angen ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau y bydd Cymru'n eu hwynebu yn yr hirdymor. Mae cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn ystyried amcanion byrdymor a hirdymor, a chaiff mesurau ar gyfer rheoli perygl llifogydd eu hadolygu bob chwe blynedd.

Cynllunio i sicrhau manteision lluosog.

Mae angen sicrhau bod gwaith yn y dyfodol yn sicrhau manteision lluosog a hirdymor ar gyfer yr amgylchedd ac ar gyfer yr economi a'r gymdeithas yng Nghymru. Felly, rhaid i bob proses o wneud penderfyniadau adlewyrchu'r nodau llesiant hirdymor ar gyfer Cymru, a chael eu tanategu gan egwyddorion rheolaeth gynaliadwy.

Mae arferion cynaliadwy ar gyfer ymdrin â pherygl llifogydd yng Nghymru yn canolbwyntio fwyfwy ar y modd y gellir gweithio gyda phrosesau naturiol i greu datrysiadau mwy hyblyg ac addasadwy a fydd yn darparu mwy o gydnerthedd ar gyfer hinsawdd ansicr a newidiol.

Bod yn seiliedig ar dystiolaeth.

Er mwyn datblygu'r cynllun rheoli perygl llifogydd, defnyddiwyd y dystiolaeth orau sydd ar gael o amrywiaeth o ffynonellau, gan adeiladu ar wybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a gwybodaeth rhanddeiliaid a chymunedau lleol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i adeiladu a gwella'r sail tystiolaeth hwn.

Canolbwyntio ar bobl.

Bydd angen i'r broses o gynllunio cyfoeth naturiol adlewyrchu egwyddorion cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Dylai'r nod drosfwaol ddarparu canlyniadau sy'n cael eu dosbarthu'n deg ac sy'n canolbwyntio ar sicrhau manteision hirdymor i bobl Cymru.

Drwy weithio gydag eraill, y nod yw:

- Deall yr holl faterion (nid dim ond perygl llifogydd) a sut maent yn rhyngweithio;
- Deall sut y mae'r materion yn effeithio ar y manteision lleol cyfredol a chynaliadwyedd yn y dyfodol;
- Cynnwys pobl leol, cymunedau, sefydliadau a busnesau i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal, a hynny drwy rannu tystiolaeth, gwybodaeth a phrofiad;
- Canfod pa faterion i fynd i'r afael â nhw fel blaenoriaeth

Mae'r tabl isod yn darparu manylion am is-amcanion FRMP afon Hafren, a sut maent yn cysylltu â Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a'r agweddau ar reoli perygl llifogydd yn gynaliadwy.

Tabl 2.1: Amcanion FRMP Cymru

| Rhif Amcan FRMP | Amcan FRMP Cymru | Cysylltiad ag Amcanion Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Berygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol | Egwyddorion Cynaliadwyedd | | |
|-----------------|--|---|---------------------------|------------|---------|
| | | | Pobl | Amgylchedd | Economi |
| Amcan 1 | Lleihau'r perygl o niwed i fywyd i bobl a chymunedau oherwydd llifogydd o Brif Afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr | 1, 3 | Y | | Y |
| Amcan 2 | Cynyddu cydnerthedd gwasanaethau, asedau a seilwaith i'r perygl llifogydd | 1, 3 | Y | | Y |
| Amcan 3 | Gwella'r ddealltwriaeth o berygl llifogydd fel y bo penderfyniadau'n seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael | 1, 3 | Y | Y | Y |
| Amcan 4 | Gwella ymwybyddiaeth y gymuned a chydnerthedd rhag llifogydd | 2 | Y | | Y |

| | | | | | |
|---------|---|------|---|---|---|
| Amcan 5 | Darparu ymateb effeithiol a pharhaol i lifogydd. | 3 | Y | | Y |
| Amcan 6 | Neilltuo arian ac adnoddau ar gyfer pob tarddiad llifogydd yn ôl risg | 4 | Y | Y | Y |
| Amcan 7 | Ymgorffori'r dull ecosystem i ddarparu rheolaeth perygl llifogydd | 1, 4 | Y | Y | Y |
| Amcan 8 | Ceisio cyfleoedd i gyflawni drwy fesurau RBMP drwy Reoli Perygl Llifogydd | 1 | Y | Y | Y |

Dethol mesurau er mwyn cyflawni'r amcanion

Bydd unrhyw fesur y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gyflawni fel rhan o'r FRMP hwn yn digwydd er mwyn cyflawni'r is-amcanion a nodir uchod, ac yn y pen draw, y rhai a nodwyd yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae'r mesurau sydd yn y cynllun hwn wedi cael eu dethol ar ôl ystyried:

- tarddiad a difrifoldeb y perygl;
- pa brosesau rheoli perygl sydd eisoes yn eu lle;
- sut gallai'r perygl newid yn y dyfodol; a'r
- opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r perygl.

Dewisir y mesur mwyaf priodol ar ôl ystyried pob un o'r ffactorau hyn ynghyd â'r posibilrwydd technegol a'r gost. Yna, caiff y mesur priodol ei asesu o gymharu ag amcanion y cynllun er mwyn sicrhau bod y mesur arfaethedig yn cyd-fynd â'r dull sy'n cael ei ffafrio yng Nghymru.

Mae gan y mesurau sydd yn adrannau olaf y cynllun hwn gysylltiad ag amcanion y cynllun perthnasol felly mae modd gweld pa fesurau fydd yn darparu pa amcanion.

O fewn Ardal Basn Afon Hafren, defnyddir cyfuniad o fesurau i reoli a lleihau perygl llifogydd. Mae'r adran hon yn amlinellu'r mesurau ar raddfa RBD sydd eisoes yn mynd ymlaen yn rhan Gymreig RBD Hafren ac a fydd yn parhau i gael eu darparu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Sgorio blaenoriaethau'r mesurau

Yng Nghymru, caiff blaenoriaethau pob mesur eu gosod gan ddefnyddio'r tabl isod:

| | |
|----------|--|
| 1 | Critigol - Angen sylw – ar unwaith |
| 2 | Uchel lawn – Angen sylw – tymor byr (blwyddyn 1) |
| 3 | Uchel – Angen sylw – tymor canolig (blwyddyn 2 - 3) |
| 4 | Canolig - Angen sylw – tymor canolig (blwyddyn 4 - 6) |
| 5 | Isel – Statws da – dim angen ymyrraeth am > 6 mlynedd |

Statws Gweithredu

Tabl 2.2: Mae hyn yn rhoi arwydd o'r cam y mae'r mesur wedi ei gyrraedd

| Statws gweithredu | Disgrifiad |
|-------------------|------------------------------|
| Heb Ddechrau | Gallai hyn olygu'r canlynol: |

| | |
|--------------|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r gweithdrefnau technegol a/neu weinyddol sydd eu hangen er mwyn dechrau ar y gwaith adeiladu ar brosiect wedi dechrau. • Nid yw'r gwasanaethau ymgynghorol yn weithredol eto ac nid ydynt wedi darparu unrhyw sesiwn gynghori eto. • Nid yw'r ymchwil, yr ymchwiliad neu'r astudiaeth wedi dechrau, h.y. nid oes contract wedi cael ei lofnodi neu ni fu unrhyw gynnydd. • Nid yw'r ffeil weinyddol wedi cael ei hagor, ac ni fu unrhyw gamau gweinyddol mewn perthynas â'r mesur. |
| Mynd ymlaen | <p>Gallai hyn olygu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gweithdrefnau gweinyddol sydd eu hangen er mwyn cychwyn ar y gwaith adeiladu wedi dechrau ond heb gael eu cwblhau'n derfynol. • Mae'r gwasanaethau cynghori'n weithredol ac yn cael eu defnyddio. • Mae'r ymchwil, yr ymchwiliad neu'r astudiaeth wedi cael ei gontractio neu wedi dechrau ac wrthi'n cael eu datblygu. • Mae ffeil weinyddol wedi cael ei hagor, ac mae'r cam gweithredu gweinyddol cyntaf wedi cael ei gymryd. |
| Wedi cwblhau | <p>Gallai hyn olygu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau'n derfynol a'r cyfleusterau'n weithredol. • Mae gwasanaeth cynghori wedi cael ei roi ar waith ac wedi cael ei gwblhau'n derfynol, • Mae'r ymchwil, yr ymchwiliad neu'r astudiaeth wedi cael eu cwblhau'n derfynol ac wedi cael eu cyflwyno. • Mae'r weithred weinyddol wedi cael ei chwblhau (e.e. mabwysiadwyd y rheoliad ayyb.). |

Mesurau FRMP Cenedlaethol Cymreig ar gyfer RBMP a FRMP

Canfod cyfleoedd i wella amgylchedd dŵr drwy raglenni gwaith cyfredol a dyluniadau cynlluniau ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Canfuwyd synergeddau posibl a gwrthdaro rhwng mesurau RBMP a mesurau FRMP mewn cymunedau penodol sydd mewn perygl, a chânt eu hymgorffori yn y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl er mwyn canfod lle gellir darparu manteision lluosog drwy brosiectau. Mae'r camau y gellir eu cyflawni o fewn y ffenestr gynllunio 6 mlynedd nesaf wedi'u cofnodi yn y cynlluniau cyflenwi yn Adran 8.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio cyfleoedd ac yn dylanwadu ar eraill i ddefnyddio mesurau naturiol i reoli perygl llifogydd lle bo hynny'n briodol. Bydd RhPLI yn gweithio gyda'r timau Rheoli Adnoddau Naturiol yn yr Ardal i ddatblygu Datganiadau ar Sail Ardaloedd er mwyn sicrhau bod perygl llifogydd yn rhan annatod o'r gwaith o ystyried Rheoli Adnoddau Naturiol, gan gynnwys canfod cyfleoedd i Reoli Perygl Llifogydd yn Naturiol. Bydd Rheoli Perygl Llifogydd yn cefnogi gwaith eraill wrth ganfod cyfleoedd a gweithredu mesurau i sicrhau manteision i berygl llifogydd fel rhan o raglenni gwaith/prosiectau arfaethedig.

Mynd ati i aildrefnu dan reolaeth a chreu cynefinoedd rhynglanwol drwy'r Rhaglen Genedlaethol i Greu Cynefinoedd (NHCP). Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau gyda'r rhaglen waith hon, i ddarparu cynefin digolledu arfordirol i wrthbwysu'r hyn y disgwylir ei golli oherwydd gwasgfa arfordirol, a nodir yn y SMP2au.

Mewn ardaloedd dyfrol a ddynodwyd yn rhai addasedig iawn oherwydd llifogydd ac amddiffyniad arfordirol, bydd lliniaru ar gyfer asedau dan berchnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a gweithgareddau yn cael eu hadolygu a'u darparu ar sail flaenoriaethol.

Cyfrannu at gyflawni amcan WFD a statws cadwraeth ffafriol ar safleoedd blaenoriaeth Rheoli Lefel y Dŵr. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gyda thirfeddianwyr a chydweithwyr ar safleoedd gwarchoddedig i gyflawni'r Cynlluniau Rheoli Lefel Dŵr.

Cyfrannu at ymchwil a datblygu er mwyn canfod yr arfer orau ar gyfer rheoli pwysau hydromorffolegol yn yr amgylchedd dŵr. I atal perygl:








Ceisio cyfleoedd i Reoli Perygl Llifogydd yn Naturiol drwy ddefnyddio'r holl offer priodol sydd ar gael, megis y mapiau Creu Coetir.




3. Casgliadau, amcanion a mesurau i reoli perygl llifogydd yn nalgylchoedd RBD Hafren

Mae'r adrannau a ganlyn yn ystyried y mesurau ar gyfer pob un o'r dalgylchoedd a ganlyn yn Ardal Basn Afon (RBD) Hafren yng Nghymru. Nodir y dalgylchoedd yn ôl dalgylchoedd rheoli'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr:

- Afon Hafren yn Ucheldir Cymru (Afon Hafren yng Nghymru)
- Afon Hafren yn Ucheldir Lloegr (Afon Hafren yn Lloegr)
- Afon Tefeidiad (trawsffiniol)
- Afon Gwy yng Nghymru (Afon Hafren yng Nghymru)
- Afon Gwy yn Lloegr (Afon Hafren yn Lloegr)
- Afon Wysg (Afon Hafren yng Nghymru)
- Cymoedd y De-ddwyrain (Afon Hafren yng Nghymru)

Tabl 3.1: Dolenni i strategaethau rheoli perygl llifogydd neu dudalennu llifogydd awdurdodau llifogydd lleol arweiniol yn ardal basn Afon Hafren yng Nghymru

| ALILIA | Dalgylch(oedd) rheoli perthnasol | Dolen at ragor o wybodaeth |
|---|---|---|
|  | <ul style="list-style-type: none"> • Ucheldir Hafren • Afon Tefeidiad • Afon Gwy • Afon Wysg • Cymoedd y De-ddwyrain | http://pstatic.powys.gov.uk/fileadmin/Docs/Roads/Powys_local_flood_risk_management_strategy_cy.pdf |
|  | <ul style="list-style-type: none"> • Afon Wysg | https://monmouthshire.gov.uk/ap/uploads/2013/06/LFRMS-Strategy-Document-Apr-2013-V1.pdf |
|  | <ul style="list-style-type: none"> • Cymoedd y De-ddwyrain | http://www.blaenau-gwent.gov.uk/documents/Documents_Environment/BGCBC_Flood_Risk_Strategy.pdf |
|  | <ul style="list-style-type: none"> • Cymoedd y De-ddwyrain | http://www.torfaen.gov.uk/en/RoadsTravelParking/RoadsAndPavements/FloodRiskManagement/Local-Flood-Risk-Management-Strategy.aspx |
|  | <ul style="list-style-type: none"> • Cymoedd y De-ddwyrain | http://www.merthyr.gov.uk/resident/parking-roads-and-travel/flooding-and-drainage/flood-risk-management/ |
|  | <ul style="list-style-type: none"> • Cymoedd y De-ddwyrain | http://www.rctcbc.gov.uk/en/environmentplanningandwaste/flooding/local-flood-risk-management-strategy/local-flood-risk-management-strategy.aspx |
|  | <ul style="list-style-type: none"> • Cymoedd y De-ddwyrain | http://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Strategies,-plans-and-policies/Road-and-pavements/Local-Flood-Risk-Management-Strategy?lang=cy-gb |

| ALILIA | Dalgyrch(oedd) rheoli perthnasol | Dolen at ragor o wybodaeth |
|---|---|---|
|  | <ul style="list-style-type: none"> • Cymoedd y Ddeddwyrain | http://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Environment/Flood-and-coastal-erosion-risk/Local-Flood-Risk-Management-strategy-Draft.pdf |
|  | <ul style="list-style-type: none"> • Cymoedd y Ddeddwyrain | https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Documents/Flood/Local%20Flood%20Risk%20Management%20Strategy.pdf |
|  | <ul style="list-style-type: none"> • Cymoedd y Ddeddwyrain | http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/report/cont707694.pdf |


3.1a. Dalgylch afon Hafren yr Ucheldir yng Nghymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



Allwedd

- Prif Afonydd
- Dalgylch Rheoli Ucheldir Hafren
- Dalgylchoedd Rheoli Eraill RBD Hafren



© Crown copyright. All rights reserved.
 Natural Resources Wales, 100019741, 2013.
 © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
 Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2013.

Ffigur 3.1: Dalgylch Ucheldir Hafren yng Nghymru

Disgrifiad/trosolwg o'r dalgylch

Mae dalgylch Ucheldir Hafren yn ymestyn o Bumlumon yn y gorllewin i Amwythig yn y dwyrain ac o Groesoswallt yn y gogledd i'r Drenewydd yn y de. Mae'n ymestyn dros ardal sydd tua 2,500 km². Afonydd Hafren ac Efyrynwy yw'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac mae hynny'n pwysleisio'r angen am gydweithio rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn rheoli'n effeithiol y perygl a'r manteision sydd gan yr afonydd i'r cymunedau lleol.

Mae'r dalgylch yn fryniog yn bennaf, gyda Mynyddoedd Cambria yn tra-arglwyddiaethu ar yr ochr orllewinol, ac afonydd Hafren ac Efyrynwy yn ei ddraenio. Mae'r ddwy afon yn codi o fewn ardal Pumlumon cyn syrthio'n sydyn drwy ddyffrynnoedd afonydd rhychog ag ochrau serth. Ymhellach i lawr yr afon, o gwmpas cydlifiad Hafren/Efyrynwy, mae'r topograffi'n gwastatáu, ac mae hon yn ardal bwysig ar gyfer storio llifogydd, cyn i afon Hafren lifo i Loegr.

Gwledig yn bennaf yw'r dalgylch o ran natur. Caiff y tir ei ddefnyddio'n bennaf gan amaethyddiaeth gyda thir pori a ffermio defaid dros ryw draean o'r llechweddau (Gradd 4 i 5 ansawdd isel i wael), tra bo ffermio llaeth yn tra-arglwyddiaethu ar y dyffrynnoedd ac ardal y cydlifiad lle mae'r priddoedd o ansawdd gwell. Mae amaethyddiaeth hefyd yn cefnogi'r economi leol drwy'r busnesau cysylltiedig sy'n cael eu tanategu drwy ddarparu gwasanaethau ar ei chyfer.

Mae yna grynhoad o goedwigoedd rheoledig ar ochr orllewinol ucheldir Hafren o amgylch Coedwig Dyfnant, i'r de o Lyn Efyrynwy, a Choedwig Hafren o amgylch Llyn Clywedog.

Mae twristiaeth a busnesau bychain hefyd yn allweddol i les ariannol yr ardal. Mae hyn yn cynnwys nifer o ganolfannau trefol, gan gynnwys y Drenewydd a'r Trallwng.

Mae'r ardal yn boblogaidd ymysg pysgotwyr a cherddwyr ac mae iddi werth mawr o ran cadwraeth, gan gynnwys Camlas Maldwyn, sy'n cael ei chydabod yn rhyngwladol am ei rhywogaethau planhigion.

Hefyd, defnyddir cyrsiau dŵr ar gyfer cyflenwi dŵr cyhoeddus, gyda nifer o gronfeydd dŵr mawr yn y blaenddyfroedd yn Llyn Efyrynwy a Llyn Clywedog. Mae'r rhain yn darparu elfen o wanhau o fewn y dalgylch uchaf, a gallent ddylanwadu ar y llifoedd yn afonydd Hafren ac Efyrynwy.

Mae yna nifer o ardaloedd dynodedig o bwysigrwydd cadwraeth yn y dalgylch. Mae yna lawer o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SACs), sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol ac sy'n cynnwys Mynyddoedd y Berwyn/De Clwyd, a Chamlas Trefaldwyn a dwy Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPAs) yn y Berwyn ac Elenydd/Mallaen.

Mae yna hefyd nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs) a thair Gwarchodfa Natur Genedlaethol, gan gynnwys y Berwyn.

Mae rhan fechan o ddalgylch Ucheldir Hafren o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

O fewn Dalgylch Ucheldir Hafren, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu perthynas weithio dda gyda phartneriaid. Mae'r rhai yn cynnwys awdurdodau lleol a chwmnïau dŵr, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. Mae'r dalgylch Cymreig yn dod dan awdurdod unedol Powys.

Rydym yn gweithio'n agos hefyd gyda'r Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordirol, Fforymau Llifogydd Lleol, Severn Trent Water plc, Dŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Undeb yr NFU. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweinyddu Dosbarth Draenion Mewnol Tir Powys, a oedd tan Ebrill, yn Fwrdd Draenio Mewnol Tir Powys. Mae Cyfoeth Naturiol yn gweithio'n agos hefyd gyda thirfeddianwyr lleol, cynghorwyr a gwleidyddion drwy grŵp cyswllt lleol sy'n canolbwyntio ar faterion llifogydd a defnyddio cronfeydd dŵr i liniaru.

Llifogydd hanesyddol yn y dalgyrch

Mae llifogydd yn dalgyrch Ucheldir Hafren yn nodweddiadol gyflym oherwydd topograffeg serth yr ardal, gan effeithio ar lawer o gymunedau gwledig a nifer o drefi yng ngwaelod y dyffrynnoedd serth a rhychog lle mae llawer o'r afonydd yn rhedeg drwyddynt. Mae'r trefi hyn yn cynnwys y Drenewydd, Caersws a'r Trallwng. I lawr yr afon, effeithiwyd yn gyson ar ardal y cydlifiad Efyrynwy/Hafren, gan aros dan ddŵr yn aml am gyfnodau hir.

Yn 1947 y digwyddodd y llifogydd mwyaf a gofnodwyd, ac achosodd ddifrod a tharfu eang. 'Glaw ar eira' a daniodd y digwyddiad, sef pryd y syrthiodd glaw cymharol gynnes ar eira gan wneud i'r eira doddi'n sydyn. I lawer o gymunedau, hwnnw yn 1947 yw'r digwyddiad mwyaf a gofnodwyd mewn cof.

Ers hynny, mae llifogydd mawr ledled y dalgyrch wedi bod yn brin tan y rhai a ddigwyddodd ym mis Hydref 1998 a thymor yr hydref 2000 ac a effeithiodd ar gymunedau lawer.

Yn Chwefror 2011, cafwyd llifogydd sylweddol ar hyd afon Efyrynwy, gan arwain at y lefelau uchaf a gofnodwyd mewn llawer o leoliadau ers i'r cofnodion ddechrau.

Perygl llifogydd yn y dalgyrch ar hyn o bryd

Er bod perygl llifogydd afonol yn y dalgyrch yn digwydd yn bennaf i dir amaethyddol, mae nifer o gymunedau ac eiddo unigol yn y dalgyrch yn parhau mewn perygl.

Natur y llifogydd yn y dalgyrch yw digwyddiadau bach eu heffaith ond aml, sy'n tueddu i barau am gyfnodau hir. Mae ardal cydlifiad Hafren/Efyrynwy yn gymhleth ac mae llawer o faterion lleol yn ymwneud â'r cyflymder y mae dyfroedd llifogydd yn dychwelyd i'r afonydd ar ôl i'r lefelau wasgaru. Mae ardal y cydlifiad yn chwarae rhan allweddol yn lleihau'r perygl llifogydd i lawr yr afon gan ei bod yn darparu lle i storio dŵr llifogydd. Mae ardal storio Basn Hayes ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn darparu tua 5 miliwn metr giwbig o storfa.

Nid oes unrhyw leoliadau ymhlith y 50 o'r prif gymunedau perygl llifogydd yng Nghymru, ond mae dwy ymhlith y prif 100, ac felly nid oes lle amlwg iddynt ar y rhestr perygl gweddilliol. Mae gan rai o'r canolfannau trefol o fewn y rhan Gymreig o'r dalgyrch gynlluniau lliniaru llifogydd eisoes.

Mae nifer sylweddol o seilwaith mewn perygl o lifogydd, yn enwedig nifer o gefnffyrdd a ffyrdd bychain a allai darfu'n sylweddol yn ogystal ag ynysu rhai cymunedau. Mae llifogydd o ddŵr wyneb/carthffosydd hefyd yn digwydd mewn rhai o'r ardaloedd trefol mwyaf.

Perygl a phroblemau llifogydd yn y dalgyrch yn y dyfodol

Yn y dyfodol, bydd perygl llifogydd yn cael ei ddylanwadu'n bennaf gan y newid yn yr hinsawdd, ond hefyd gan newid y defnydd o dir a rheolaeth tir gwledig. Mewn senarios yn y dyfodol, bydd yr ardaloedd o'r dalgyrch sy'n cael eu hamddiffyn yn fwy agored i ddŵr yn dod drosodd a gallai ardaloedd trefol fel y Drenewydd a'r Trallwng gael mwy o lifogydd dŵr wyneb.

Gwaith diweddar i reoli perygl llifogydd yn y dalgyrch

Mae yna lawer o gynlluniau lliniaru llifogydd ar hyd afon Hafren a'i hisafonydd, gan gynnwys yn y Drenewydd, Trallwng, Llandrinio a'r system o argloddiau pridd, a elwir yn lleol yn Argaes. Mae'r Argaes yn ymestyn o ardal Caersws at y cydlifiad, a'u bwriad yw bod yn uwch na llif y dŵr a'i reoli'n ôl i'r afonydd wrth i'r lefel syrthio.

Mae nifer o gymunedau diarffordd a llai sydd mewn perygl o lifogydd wedi gosod amddiffynfa ar lefel eiddo unigol er mwyn lleihau'r perygl llifogydd.


Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynu astudiaeth i ymchwilio i'r cyfarwyddiadau gweithredol cyfredol ar gyfer cronfeydd dŵr Efyrynwy a Chlywedog. Bydd yr astudiaeth yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio'r ddwy gronfa fel asedau perygl llifogydd drwy gynyddu'r lle storio sydd ar gael heb beryglu eu prif ddiben o reoli adnodd dŵr a chyflenwi dŵr yfed. Bydd yr astudiaeth yn edrych hefyd ar effeithiau'r cronfeydd dŵr ar lifogydd o fewn y dalgyrch ac ar effeithiau cyfunol yn y cydlifiad. Caiff yr astudiaeth ei datblygu gyda chymunedau lleol a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ei bod yn ymdrin â phryderon lleol. Cynhaliwyd yr astudiaeth gyda chydysyniad a mewnbwn gan bob ochr sy'n gysylltiedig â rheoli'r cronfeydd dŵr er mwyn sicrhau bod safbwynt dalgyrch cyfan yn cael ei gymryd, a bod yr holl argymhellion yn realistig.

Y prif gymunedau lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynllunio CAMAU (Mae'r Cymunedau sydd wedi'u Duo yn y 50 Uchaf yng Nghymru)

Mae yna nifer o gymunedau o fewn y dalgyrch lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn teimlo bod rhagor eto i'w wneud i reoli a lleihau perygl llifogydd. Mae Adran 2.2 o'r adroddiad hwn yn nodi sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn blaenoriaethu gwaith ar sail perygl fel y bo'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl yn cael eu trin yn gyntaf.

Tabl 3.2: Y prif gymunedau

| Label | Cymuned | Label | Cymuned |
|-------|----------------|-------|-------------|
| 1 | Llanllwchaearn | 4 | Meifod |
| 2 | Caersws | 5 | Y Drenewydd |
| 3 | Llanidloes | 6 | Llandrinio |



Allwedd

-  Prif Afonydd
-  Prif Gymunedau Ucheldir Hafren
-  Dalgylch Rheoli Ucheldir Hafren
-  Dalgylchoedd Rheoli Eraill RBD Hafren

0 1.25 5 7.5 10
Cilometrau



© Hawffraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2013.
© Crown copyright. All rights reserved.
Natural Resources Wales, 100019741, 2013.

Ffigur 3.2: Dalgylch Ucheldir Hafren yng Nghymru

Tabl 3.3: Dalgylch Ucheldir Hafren yng Nghymru– Mesurau

Mae'r cynllun cyflenwi dalgylchoedd presennol yn nodi, ar sail cymunedau, beth yw'r mesurau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu cymryd eisoes; wrthi'n eu cymryd; neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn helpu i reoli'r perygl llifogydd i'r gymuned honno. Mae hyn yn darparu rhestr o fesurau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu eu cymryd o fewn y dalgylch dros y blynyddoedd nesaf, yn ddibynol ar asesu a chyfiawnhau'r gost.

| Lleoliad | Tarddiad | Enw'r Mesur | Mesurau | Cyswllt ag amcan Cymreig FRMP | Amseriad | Blaen-oriaeth | Statws y Mesur | Awdurdod cyfrifol |
|------------|-----------|--|------------|-------------------------------|----------|---------------|----------------|------------------------|
| Caersws | Prif Afon | Gweithredu mesurau eraill i leihau'r perygl. | M2 – Atal | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Gwella'r model presennol ar gyfer rhagweld llifogydd | M4 - Parod | 1 2 3 4 | Cyfredol | Isel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Cynnal asesiad ar y strwythurau presennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | M2 – Atal | 1 2 3 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Meifod | Prif Afon | Cynnal asesiad ar y strwythurau presennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | M2 – Atal | 1 2 3 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llanidloes | Prif Afon | Asesu gofynion cludiant a rhoi cynnal a chadw ar waith. | M2 – Atal | 1 2 3 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | | | | | | | | |
|----------------|-----------|--|------------|---------|----------|------|--------------|------------------------|
| | | Gwella'r model presennol ar gyfer rhagweld llifogydd | M4 - Parod | 1 2 3 4 | Cyfredol | Isel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llanllwchaiarn | Prif Afon | Cynnal asesiad ar y strwythurau presennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | M2 – Atal | 1 2 3 | Cyfredol | Isel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Adolygu a Diweddarau'r model | M2 – Atal | 3 | Cyfredol | Isel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llandrinio | Prif Afon | Cynnal asesiad ar y strwythurau presennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | M2 – Atal | 1 2 3 | Cyfredol | Isel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Y Drenewydd | Prif Afon | Adolygu a Diweddarau'r model | M2 – Atal | 3 | Cyfredol | Isel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |


3.4. Dalgylch afon Tefeidiad

Cyflwyniad i'r dalgylch

Mae dalgylch afon Tefeidiad (Teme) yn ymestyn o Gaerwrangon i gyfeiriad y gogledd-orllewin gan groesi'r ffin i Gymru yn Nhrefyclo, dros ardal sy'n 1,650 km². Mae ei hisafonydd yn cynnwys afonydd Clun, Onny a Corve, sy'n draenio Wenlock Edge.

Mae'r dirwedd yn amrywiol, yn ymestyn o ardaloedd isel cymharol wastad yng nghyffiniau Caerwrangon, cyn culhau o fewn dyffryn afon Tefeidiad, sy'n ymestyn i'r ucheldir ym Mryniau Swydd Henffordd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Ffigur 3.3: Dalgylch afon Tefeidiad



Rheolaeth a'r defnydd o dir

Amaethyddol yn bennaf yw'r defnydd o dir yn y dalgylch (yn amrywio o Radd 2/3 - ansawdd tir da i gymedrol yn Nyffryn Afon Tefeidiad i Radd 5 - ansawdd gwael yn yr ucheldir), gyda chymysgedd o ffermio â'r, glaswelltir rheoledig a glaswelltir garw. Y prif ganolfannau trefol yw trefi marchnad Llwydlo a Tenbury Wells, ac mae twristiaeth a rhai busnesau bychain yn allweddol i les ariannol y cymunedau gwledig yn y cyffiniau.

Defnyddir cyrsiau dŵr yn y dalgylch ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys hamdden, cyflenwi dŵr yfed, pysgodfeydd a chadwraeth. Mae'r ardal yn doreithiog ei threftadaeth o ran tirwedd a'i bywyd gwylt, ac mae'n rhannol o fewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Swydd Henffordd a Bryniau Malvern.

Daeareg

Mae'r ddaeareg yn nalgylch afon Tefeidiad wedi'u rhannu'n fras yr un modd â'r dopograffeg, gyda chleiau a cherrig llaid ar hyd gwaelod Dyffryn Afon Tefeidiad a'i rhannau isaf o gwmpas Caerwrangon, a thywodfaen a chreigiau igneaidd yn ffurfio tir uchaf Bryniau Swydd Henffordd.

Dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol

Mae yna rai ardaloedd o bwysigrwydd cadwraeth naturiol yn y dalgylch.

Mae'r rhain yn cynnwys tair Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) a ddynodwyd yn rhyngwladol, gan gynnwys SAC Afon Clun, SAC Downton Gorge, a SAC The Stiperstones and The Hollies. Hefyd, mae yna nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), gan gynnwys Afon Tefeidiad ar ei hyd, ac un Warchodfa Natur Genedlaethol (NNR) yn Downton Gorge, sy'n hysbys am eu rhywogaethau, cynefinoedd neu ddaeareg.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Swydd Henffordd yn ymestyn dros ardal helaeth yng ngogledd y dalgylch.

Mae'r safleoedd dynodedig hyn, a'r ffordd y cânt eu rheoli, yn gallu cael effaith ar berygl llifogydd yn nalgylch Afon Tefeidiad.

Mae'r dalgylch yn cynnwys amrywiaeth eang o asedau treftadaeth dynodedig megis henebion, adeiladau rhestredig, parciau a gerddi cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth, yn ogystal ag amrywiaeth eang o asedau treftadaeth nad ydynt yn rhai dynodedig ac a nodwyd yng Nghofnodion Amgylchedd Hanesyddol yr awdurdod lleol. Mae'r adnodd hwn o asedau treftadaeth yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r amgylchedd dŵr megis argaeau, melinau dŵr a phontydd, yn ogystal â'r potensial ar gyfer olion archaeolegol, gan gynnwys dyddodion mawn a sianelau amgylcheddol hynafol yn gysylltiedig â sianelau afonydd blaenorol, gorlifdiroedd a nodweddion dŵr eraill. Mae llawer o asedau treftadaeth o werth tirwedd hanesyddol hefyd, megis y rhai sy'n gysylltiedig â phatrymau caeau, gwrychoedd, coetir a choed hynafol, ac maent yn cyfrannu at gymeriad a unigrywedd y dirwedd yn ehangach. Enghreifftiau o drefi hanesyddol ar lan yr afon yn y dalgylch yw Llwydlo a Threfyclo.

Gweithio mewn partneriaeth

O fewn Dalgylch Afon Tefeidiad, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu perthnasoedd gwaith da gyda phartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau lleol. Mae'r dalgylch yn dod o fewn tri chyngor unedol (sef Swydd Henffordd, Swydd Henffordd a Phowys) ac un cyngor lleol (Cyngor Dosbarth Malvern Hills).

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio'n agos hefyd gyda'r Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordirol, Severn Trent Water plc, y Comisiwn Coedwigaeth, Undeb yr NFU, Natural England, Historic England a swyddogion archeolegol a chadwraeth mewn awdurdodau lleol.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn parhau i weithio, a chryfhau cysylltiadau, gyda Phartneriaeth Dalgylch Afon Tefeidiad a phartneriaid eraill i ddarparu amrywiaeth o welliannau amgylcheddol ac ecolegol o fewn Cynlluniau Adfer Afon SAC Afon Clun ac i gyrraedd targedau Strategaeth Bioamrywiaeth Lloegr (2020).

Llifogydd hanesyddol

Mae Afon Tefeidiad yn ddalgylch canolig ei faint, felly gall llifogydd ddechrau'n gymharol gyflym mewn rhannau, gyda'r brif sianel yn ymateb yn gyflym dan rai amgylchiadau.

Cofnodwyd llifogydd yn y dalgylch dros lawer o flynyddoedd o fewn y trefi yr effeithiwyd arnynt, megis Tenbury Wells, Craven Arms, Trefyclo a Llwydlo, ond oherwydd ei natur wledig nid oes lawer o gofnodion hanesyddol eang.

Digwyddodd y llifogydd difrifol mwyaf diweddar yn 1947 a 2007 pan effeithiwyd ar nifer o eiddo yn Tenbury Wells.

Nid oes fawr o gofnod o ddigwyddiadau arwyddocaol eraill.

Perygl llifogydd ar hyn o bryd

Oherwydd natur wledig y dalgylch uwch, mae'r perygl llifogydd wedi'i gyfyngu'n bennaf i dir amaethyddol ac eiddo diarffordd.

Pan fo llifogydd, maent yn cychwyn yn gymharol sydyn oherwydd natur serth y dalgylch i fyny'r afon gyda'i ddyffrynnoedd afonol.

Yn rhannau is y dalgylch, i'r gorllewin o Gaerwrangon, gall lefelau llifogydd yn Afon Tefeidiad gyfuno â chyfnodau hirach o lifogydd o gwmpas ei chydliwiad ag Afon Hafren. Mewn digwyddiadau mwy, megis y rhai yn 1947 a 2007, mae llifogydd i eiddo yn digwydd yn yr ardaloedd trefol prin, fel y soniwyd yn yr adran flaenorol.

Mae perygl o ddŵr wyneb a llifogydd carthffosydd mewn rhai lleoliadau trefol.

Gwaith diweddar i reoli perygl llifogydd

Ers 2007, mae eiddo yn Tenbury Wells a'r cyffiniau wedi elwa ar amddiffyniad ar lefel eiddo.

Cyswilt gyda Chynllun Rheoli Dalgylch Afon Hafren

Mae Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren yn nodi beth sydd ei angen er mwyn cyflawni safonau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn dalgylch rheoli Afon Tefeidiad. Y problemau pwysig yn y dalgylch hwn yw llygredd o ardaloedd gwledig, llygredd o ddŵr gwastraff ac addasiadau corfforol.

Pan ganfuwyd methiant, aseswyd amrywiaeth o fesurau y byddai eu hangen er mwyn gwella statws yr ardaloedd dyfrol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi asesu'r mesurau sydd eu hangen i gael manteision cadarnhaol i'r amgylchedd dŵr ac i gymdeithas. Mae'r mesurau wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd i sicrhau bod effaith gronnol y 'dalgyllch' yn cael ei hystyried.

Yn ogystal â'r mesurau sydd eu hangen i wella statws ardaloedd dyfrol, mae angen mesurau eraill i:

- Amddiffyn neu wella 'Ardaloedd Gwarchoddedig' o fewn y dalgylch gweithredol.
- Atal ardaloedd dyfrol rhag dirywio o'u statws cyfredol.

Bydd rhai o'r mesurau hyn o fudd i fwy nag un ardal ddyfrol neu ddalgylch, ac mae rhai ohonynt yn benodol iawn. Mae'r effaith gronnol a manteision y mesurau ar gyfer y dalgylch gweithredol wedi cael eu hystyried.


Ystadegau Allweddol

Mae'r adrannau a ganlyn yn darparu ystadegau allweddol ar gyfer gwahanol darddiadau perygl llifogydd o fewn y dalgyrch.

Llifogydd o afonydd a'r môr

Yn y dalgyrch hwn, mae tua 4,050 o bobl mewn perygl llifogydd afonydd, sef 4% o'r holl boblogaeth. Mae bron i 1,750 o eiddo dibreswyl mewn perygl o lifogydd afon, ac mae 500 o'r rheini'n cael eu hystyried yn rhai â risg uchel. Mae tua 6% o dir amaethyddol yn y dalgyrch mewn perygl llifogydd, a 3,500 hectar â risg uchel.

Ffigur 3.4: Asesiad Cenedlaethol o Berygl Llifogydd (NAFRA) yn nalgylch afonTefeidiad



Datblygwyd a chyhoeddwyd y map llifogydd afonydd a môr gan Asiantaeth yr Amgylchedd

Tabl 3.4: Crynodeb o beryglon llifogydd o afonydd a'r môr i bobl, gweithgarwch economaidd a'r amgylchedd naturiol a hanesyddol ledled Dalgylch Afon Tefeidiad.

| Afon a Môr | Cyfanswm yn y Dalgylch | Risg uchel | Risg canolig | Risg isel | Risg isel iawn |
|---|-------------------------------|-------------------|---------------------|------------------|-----------------------|
| Risg i bobl: | | | | | |
| Nifer y bobl yn yr ardal: | 93,150 | 800 | 550 | 750 | 1,950 |
| Nifer y gwasanaethau: | 550 | 20 | <10 | <10 | <20 |
| Risg i weithgarwch economaidd: | | | | | |
| Nifer yr eiddo dibreswyl: | 36,450 | 500 | 300 | 300 | 650 |
| Nifer y meysydd awyr: | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pellter y ffyrdd (km): | 90 | <10 | <10 | <10 | <10 |
| Pellter y rheilffyrdd (km): | 70 | <10 | <10 | <10 | <10 |
| Tir amaethyddol (ha): | 104,750 | 3,500 | 750 | 850 | 1,050 |
| Risg i'r amgylchedd naturiol a hanesyddol: | | | | | |
| Nifer y dyfroedd ymdrochi a ddynodwyd gan yr UE o fewn 50m: | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Nifer y safleoedd EPR o fewn 50m: | 19 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Arwynebedd SAC o fewn yr ardal (ha): | 300 | <50 | <50 | <50 | <50 |
| Arwynebedd SPA o fewn yr ardal (ha): | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arwynebedd safle RAMSAR o fewn yr ardal (ha): | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arwynebedd Safle Treftadaeth y Byd o fewn yr ardal (ha): | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ardal SSSI o fewn yr ardal (ha): | 4,250 | 450 | <50 | <50 | <50 |
| Arwynebedd Parciau a Gerddi o fewn yr ardal (ha): | 2,400 | <50 | <50 | <50 | <50 |
| Arwynebedd Henebion Rhestredig o fewn yr ardal (ha): | 550 | <50 | <50 | <50 | <50 |
| Nifer yr Adeiladau Rhestredig o fewn yr ardal: | 3,600 | 100 | 50 | 50 | 60 |
| Nifer yr echdyniadau dŵr trwyddedig o fewn yr ardal: | 160 | 80 | 0 | <10 | <10 |

Nodyn:

SAC - Ardal Cadwraeth Arbennig

SPA - Ardal Gwarchodaeth Arbennig


Ramsar – safle gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol

Safleoedd EPR - y rhai sydd wedi'u cofrestru dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Llifogydd o gronfeydd dŵr

Mae dros 150 o bobl mewn perygl o lifogydd o gronfeydd dŵr yn Nalgylch Afon Tefeidiad, sef tua 0.2% o'r holl boblogaeth yn y dalgylch. Tua 100 o eiddo dibreswyl sydd mewn perygl o lifogydd o gronfeydd dŵr yn Nalgylch Afon Tefeidiad. Tua 0.4% o'r tir amaethyddol yn y dalgylch sydd mewn perygl o lifogydd o gronfeydd dŵr. Tua 3.5% o'r safleoedd SSSI, a dim un safle Ramsar, sydd mewn perygl o lifogydd yn yr ardal.

Ffigur 3.5: Hyd a lled y perygl llifogydd o gronfeydd dŵr yn nalgylch Afon Tefeidiad



Datblygwyd a chyhoeddwyd y map llifogydd cronfeydd dŵr gan Asiantaeth yr Amgylchedd

Tabl 3.5: Crynodeb o berygl llifogydd o gronfeydd dŵr i bobl, gweithgarwch economaidd a'r amgylchedd naturiol a hanesyddol ledled Dalgylch Afon Tefeidiad.

| Cronfeydd dŵr | Cyfanswm yn y Dalgylch | Uchafswm hyd a lled y llifogydd |
|---|-------------------------------|--|
| Risg i bobl: | | |
| Nifer y bobl yn yr ardal: | 93,150 | 150 |
| Nifer y gwasanaethau: | 550 | <10 |
| Risg i weithgarwch economaidd: | | |
| Nifer yr eiddo dibreswyl: | 36,450 | 100 |
| Nifer y meysydd awyr: | 0 | 0 |
| Pellter y ffyrdd (km): | 90 | <10 |
| Pellter y rheilffyrdd (km): | 70 | <10 |
| Tir amaethyddol (ha): | 104,750 | 450 |
| Risg i'r amgylchedd naturiol a hanesyddol: | | |
| Nifer y dyfroedd ymdrochi a ddynodwyd gan yr UE o fewn 50m: | 0 | 0 |
| Nifer y safleoedd EPR o fewn 50m: | 19 | 0 |
| Arwynebedd SAC o fewn yr ardal (ha): | 300 | <50 |
| Arwynebedd SPA o fewn yr ardal (ha): | 0 | 0 |
| Arwynebedd safle RAMSAR o fewn yr ardal (ha): | 0 | 0 |
| Arwynebedd Safle Treftadaeth y Byd o fewn yr ardal (ha): | 0 | 0 |
| Ardal SSSI o fewn yr ardal (ha): | 4,250 | 150 |
| Arwynebedd Parciau a Gerddi o fewn yr ardal (ha): | 2,400 | <50 |
| Arwynebedd Henebion Rhestredig o fewn yr ardal (ha): | 550 | <50 |
| Nifer yr Adeiladau Rhestredig o fewn yr ardal: | 3,600 | 30 |
| Nifer yr echdyniadau dŵr trwyddedig o fewn yr ardal: | 160 | 30 |

Nodyn:

SAC - Ardal Cadwraeth Arbennig

SPA - Ardal Gwarchodaeth Arbennig

SSSI – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Ramsar - ardal gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol

Safleoedd EPR - y rhai a gofrestrwyd dan y Rheoliadau Trwyddedu Ewropeaidd

Casgliadau ac amcanion ar gyfer dalgylch afon Tefeidiad

Casgliadau

Mae llifogydd yn nalgylch afon Tefeidiad yn tueddu i fod yn llif mawr o ran natur oherwydd bod yr ardaloedd uchaf yn serth, gan effeithio ar eiddo mewn rhai canolfannau trefol megis Craven Arms, Llwydlo a Tenbury Wells, yn ogystal ag eiddo diarffordd mewn cymunedau gwledig llai a thir amaethyddol.

Yn rhannau is y dalgylch, i'r gorllewin o Gaerwrangon, mae lefelau llifogydd yn Afon Tefeidiad yn gallu cyfuno â chyfnodau hwy o lifogydd o gwmpas ei chydliwiad gydag Afon Hafren.

Ystyrir bod yr effaith fwyaf ar lifogydd yn y dyfodol yn deillio o newidiadau yn y defnydd o dir ac arferion ffermio, yn ogystal â'r newid yn yr hinsawdd. Byddai dwysáu rhagor ar y defnydd o dir a chael gwared ar landiroedd caeau yn arwain at ddŵr ffo cyflymach a mwy o drawsgludo siltiau i'r system afon naturiol. Y canlyniadau fyddai cynnydd yn anterthau llif a gostyngiad yng nghapasiti sianelau drwy fwy o siltio.

Mae'r angen yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag eraill lle bo modd er mwyn cael mesurau rheoli perygl llifogydd a fydd yn darparu manteision amgylcheddol ehangach a manteision eraill er mwyn gwella'r amgylchedd naturiol, gwledig ac adeiledig sy'n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Amcanion

Mae'r amcanion a ganlyn yn berthnasol i'r dalgylch rheoli hwn lle bo modd a lle bo hynny'n hyfyw. Mae'r colofnau ar y dde yn dangos sut y mae amcanion y dalgylch yn cysylltu ag amcanion afon Hafren yn Lloegr a lefel yr RBD:

Tabl 3.6: Amcanion cymdeithasol ar gyfer dalgylch Afon Tefeidiad

| Amcanion Cymdeithasol | Cysylltiadau | |
|---|-----------------------|------------------------------|
| | Amcanion lefel yr RBD | Amcanion lefel Hafren Lloegr |
| Lleihau neu atal cynnydd mewn niwed i fywyd o ganlyniad i lifogydd | RBD 2 | Soc B |
| Tarfu cyn lleied ag y bo modd ar y gymuned drwy leihau effaith llifogydd drwy fod yn fwy parod o ganlyniad i well rhybudd perygl llifogydd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd | RBD 7, 9, 10 | Soc D, G |
| Llywio datblygiad tuag at ardaloedd sydd â pherygl llifogydd prin neu ddim perygl, pan fo datblygiad yn gorfod digwydd mewn ardaloedd perygl llifogydd canolig neu uwch rhaid iddo fod yn gynaliadwy, dim yn cynyddu'r perygl llifogydd ac ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd | RBD 1, 11 | Soc E |
| Gwella ymwybyddiaeth mewn dalgylchoedd sy'n ymateb yn gyflym i lawiad | RBD 2, 9 | Soc C |
| Cynyddu dealltwriaeth a rheolaeth o effeithiau perygl llifogydd | RBD 6,11 | Soc A |
| Lleihau'r tebygolrwydd o farwolaeth neu anaf difrifol o ganlyniad i orlif sydyn neu ddŵr dwfn neu sy'n llifo'n gyflym | RBD 2 | Soc C |
| Parhau i weithio gyda darparwyr cyfleustodau i wella cydnerthedd seilwaith a gwasanaethau | RBD 1, 8, 10, 11 | Soc A, F |
| Parhau i weithio gyda chyrrff eraill i wella cydnerthedd i'r rhwydwaith cyfathrebu a chysylltiadau trafniadaeth | RBD 1, 8, 10, 11 | Soc A, F |
| Cynnal asedau cyfredol sy'n amddiffyn pobl lle bo hynny'n hyfyw yn economaidd neu ganfod dewisiadau addas eraill drwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau | RBD 6,11,12 | Soc A |

Tabl 3.7: Amcanion economaidd ar gyfer dalgylch afon Tefeidiad

| Amcanion Economaidd | Cysylltiadau | |
|--|-----------------------|------------------------------|
| | Amcanion lefel yr RBD | Amcanion lefel Hafren Lloegr |
| Lleihau difrod economaidd i eiddo masnachol | RBD 1 | Ec A |
| Lleihau perygl llifogydd i eiddo preswyl | RBD 1 | Ec A |
| Lleihau perygl llifogydd i dir amaethyddol | RBD 1 | Ec E |
| Sicrhau bod buddsoddiad yn y dalgylch ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn gymesur â'r perygl llifogydd | RBD 3, 5 | Ec C |
| Lleihau perygl llifogydd i seilwaith pwysig | RBD 1, 8, 10 | Ec B, Soc F |
| Cefnogi'r sector amaethyddol i reoli perygl llifogydd y dalgylch a gwelliannau parhaus i amaethyddiaeth gynaliadwy | RBD 1, 11 | Ec D |
| Cefnogi twristiaeth drwy leihau perygl llifogydd ac ymestyn coridorau'r afon | RBD 1, 4 | Ec B, En D, G |

Tabl 3.8: Amcanion amgylcheddol ar gyfer dalgylch afon Tefeidiad

| Amcanion Amgylcheddol | Cysylltiadau | |
|---|-----------------------|------------------------------|
| | Amcanion lefel yr RBD | Amcanion lefel Hafren Lloegr |
| Manteisio ar gyfleoedd i adfer storfeydd naturiol o ddŵr llifogydd ar isafonydd yn eu hardaloedd i fyny'r afon, er mwyn gwrthbwysu'r perygl uwch o lifogydd o ganlyniad i dueddiadau gan gynnwys newid yn yr hinsawdd | RBD 11 | En A |
| Gwella amgylchedd dŵr drwy waith rheoli perygl llifogydd | RBD 1, 4 | En D, E |
| Gwella morffoleg dŵr afonydd | RBD 1, 4 | En D |
| Lleihau effeithiau llifogydd ar safleoedd dynodedig neu ardaloedd o ddiddordeb amgylcheddol | RBD 1, 4 | En C, F |
| Cynnal a gwella cynefin drwy weithgareddau rheoli perygl llifogydd | RBD 4 | En B |
| Helpu i gyflawni Amcanion WFD drwy Reoli Perygl Llifogydd | RBD 1, 4 | En E |
| Gweithio gyda phrosesau naturiol lle bynnag y bo modd er mwyn cyflawni amcanion WFD | RBD 1, 4 | Env E |
| Amddiffyn a gwella tirweddau dynodedig a chymeriad y dirwedd leol | RBD 1, 4 | En C, G |
| Cadw a gwella asedau treftadaeth (wedi'u dynodi a heb eu dynodi) a lleihau niwed i'w harwyddocâd oherwydd llifogydd | RBD 1, 4 | En F |
| Cyfrannu at reoli dŵr dalgylch yn integredig a/neu ddull draenio cynaliadwy | RBD 11 | En A |

Mesurau yn nalgylch Afon Tefeidiad

Mae mesurau sy'n berthnasol i'r dalgylch hwn wedi'u cynnwys ym mesurau lefel yr RBD a Hafren Lloegr, a ddangosir yn Atodiad 1. Hefyd, mae yna fesurau sy'n benodol i'r dalgylch hwn, fel a ganlyn:

Ledled Dalgylch Afon Tefeidiad, mae yna 12 mesur i reoli perygl llifogydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

Atal perygl: Mae 4 mesur penodol yn y categori hwn (Codau mesurau M21/M23/M24 yn Atodiad 1):

- Bydd Severn Trent Water yn buddsoddi mewn lleihau perygl llifogydd i eiddo a chyfleoedd ariannu partneriaethol (2 fesur);
- Bydd Severn Trent Water yn parhau i wneud gwaith cynnal a chadw ar sail perygl;
- Bydd Severn Trent Water yn parhau i godi ymwybyddiaeth i helpu i leihau achosion o lifogydd carthffosydd y gellir ei osgoi.

Paratoi ar gyfer perygl: Mae 2 fesur penodol yn y categori hwn (Codau mesurau M41/M42/M43/M44 yn Atodiad 1):

- Bydd Severn Trent Water yn parhau i gyfrannu at ddatblygu cynlluniau rheoli dŵr wyneb a chynlluniau rheoli carthffosiaeth (2 fesur).

Amddiffyn rhag perygl: Mae yna 6 mesur sy'n amddiffyn rhag perygl llifogydd yn y dalgylch hwn (Codau mesurau M32/M34/M35 yn Atodiad 1):

- gweithio gyda phartneriaid i ymchwilio ble gellir defnyddio prosesau naturiol i leihau'r llif;
- gweithio gyda'r gymuned yn Tenbury Wells i asesu'r strategaeth hirdymor ar gyfer cyflenwi cynllun hyfyw i liniaru llifogydd;
- gweithio gyda'r gymuned yn Cleobury Mortimer i asesu pa mor bosibl yw cyflawni mesurau i leihau perygl llifogydd;
- adolygu gweithrediadau cynnal a chadw;
- sicrhau bod gwaith rheoli chwyn yn cael ei wneud yn y dull mwyaf effeithiol ar Afon Tefeidiad;
- adolygu pa mor effeithiol yw amddiffynfeydd uchel yn y dalgylch.

Adfer ac adolygu perygl: Nid oes unrhyw fesurau penodol yn y categori hwn, y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 a'r gweithgareddau perygl llifogydd a ddisgrifir yn adran 6.

Ceir rhagor o fanylion am y mesurau penodol yn Atodiad 1

3.7a. Dalgylch afon Gwy yng Nghymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



Allwedd

- Prif Afonydd
- Dalgylchoedd Rheoli Eraill RBD Hafren
- Prif Gymunedau Afon Gwy



© Crown copyright. All rights reserved.
Natural Resources Wales, 100019741, 2013.
© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2013.

Ffigur 3.6: Dalgylch afon Gwy yng Nghymru

Disgrifiad/trosolwg o'r dalgylch

Mae dalgylch afon Gwy yn codi ym Mynyddoedd Cambria gan ymuno â'r Elan, sy'n llifo o raeaf Cronfa Ddŵr Elan ger Rhaeadr Gwy. Yna, mae'r afon yn llifo drwy Lanfair-ym-Muallt ac ymlaen i Loegr cyn dychwelyd i Gymru i'r gogledd o Drefynwy a llifo i Fôr Hafren yng Nghas-gwent yn y pen draw. Arwynebedd y dalgylch yw 4,180 km².

Gwledig yw'r dirwedd yn bennaf, coetir a thir ffermio agored yn amrywio o'r ucheldir serth Mynyddoedd Cambria yn rhan uchaf y dalgylch. O dan y Gelli, mae'r dirwedd yn troi'n iseldir mwy gwastad sy'n nodweddiadol wrth i orlifdir afon Gwy ledu. Wrth i afon Gwy ymddolennu'n ôl i Gymru, mae'r gorlifdir yn dechrau culhau eto wrth iddo dorri drwy'r calchfaen amgylchynol i ffurfio dyffryn ag ochrau mwy serth o Symonds Yat yr holl ffordd i Gas-gwent lle mae afon Gwy yn ymuno â Môr Hafren.

Amaethyddol yn bennaf yw'r defnydd o dir yn y dalgylch, gyda chymysgedd o laswelltir rheoledig â'r ffermio glaswelltir garw. Mae llawer o ardal uchaf y dalgylch uwchben Rhaeadr Gwy wedi'u gorchuddio gan rosydd a phrysg gyda rhywfaint o goedwigaeth. O fewn tiroedd isel Dyffryn Gwy amaethyddiaeth ddwys yn bennaf yw'r defnydd o dir, gyda rhywfaint o arddio marchnad.

Mae yna nifer o ganolfannau trefol, gan gynnwys Llanfair-ym-Muallt, Trefynwy a Chas-gwent. Mewn rhannau eraill, mae twristiaeth yn allweddol i les economaidd cymunedau gwledig llai, yn enwedig yn rhannau isaf Dyffryn Gwy o Drefynwy i Gas-gwent.

Defnyddir cyrsiau dŵr yn y dalgylch ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys hamdden, cyflenwi dŵr yfed, pysgodfeydd a chadwraeth. Mae'r ardal yn doreithiog ei thirwedd a'i bywyd gwylt.

O fewn y dalgylch uchaf, mae'r priddoedd yn cael eu draenio'n gymharol wael a gall hynny arwain at ddŵr ffo cyflym.

Mae yna nifer o ardaloedd dynodedig o bwysigrwydd cadwraethol yn y dalgylch, gan gynnwys dwy Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA), sef Elenydd-Mallaen a Môr Hafren. Mae'r olaf o'r rhain yn safle Ramsar hefyd.

Mae yna nifer o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) o fewn y dalgylch, ynghyd â nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) a rhai Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR). Mae'r ardaloedd dynodedig hyn i'w cael ledled y dalgylch, ac mae'r modd y cânt eu rheoli yn gallu cael effaith ar berygl llifogydd (drwy effeithio ar ddŵr wyneb ffo i Afon Hafren a'i hisafonydd).

Mae dalgylch afon Gwy yn cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) Dyffryn Gwy, ac mae'n rhannol o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

O fewn dalgylch afon Gwy, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu perthynas waith dda gyda phartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau lleol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini. Mae'r rhan Gymreig o'r dalgylch o fewn tri awdurdod unedol, sef Powys, Sir Fynwy a Chasnewydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos hefyd gyda'r Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordirol, Fforymau Cydnerthedd Lleol, Severn Trent Water plc, Dŵr Cymru a rhanddeiliaid lleol.

Llifogydd hanesyddol yn y dalgyllch

Mae yna hanes hir o lifogydd afonydd yn y dalgyllch. Bu'r llifogydd mwyaf sylweddol yn 1947, gan effeithio ar niferoedd mawr o eiddo ac ynysu Trefynwy. Roedd yr effaith i'w chael ledled y dalgyllch. Mae llifogydd mwy diweddar wedi digwydd i raddau amrywiol yn 2012, 2007 a 2000 gan effeithio ar lawer o gymunedau, er nad oedd yr hyd a'r lled mor fawr. Bu digwyddiadau nodedig eraill yn 1929, 1960, 1979 a 1998.

Yn rhannau isaf Afon Gwy mae llifogydd llanw wedi effeithio hefyd ar gymunedau o gwmpas Cas-gwent megis Pwll Brochfael (Brockweir) a Thyndyrn. Cafwyd y digwyddiadau diweddaraf yn 2014, a bu'r digwyddiad uchaf a gofnodwyd yn Rhagfyr 1981.

Mae nifer o gymunedau wedi cael llifogydd oherwydd dŵr wyneb a chysiau dŵr cyffredin yn y dalgyllch, gan gynnwys yn fwyaf diweddar yn 2012.

Perygl cyfredol o lifogydd yn y dalgyllch

Mae yna lifogydd lefel isel cyson yn Nyffryn Gwy, gan effeithio ar orlffdir amaethyddol a gwledig. Mae llifogydd o Afon Gwy ger y Gelli a Threfynwy yn ddigwyddiad cyson, ac er bod y digwyddiadau mwyaf cyson yn tarfu ar gymunedau lleol nifer gymharol isel o eiddo sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol.

Yn ystod digwyddiadau mawr megis y rhai a gafwyd yn 1947, effeithir ar nifer fawr o eiddo ledled y dalgyllch. Effeithir hefyd ar seilwaith cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys is-orsafodd cyfleustodau a'r prif lwybrau trafndiaeth, gan arwain at ynysu llawer o gymunedau gwledig. Mae'r prif beryglon llifogydd afonol ar afon Gwy i'w cael yn Llanfair-ym-Muallt a'r Clas-ar-Wy, ac i lawr yr afon yn Nhrefynwy. Trefi eraill ar Afon Gwy lle ceir rhywfaint o berygl llifogydd yw'r Gelli, Tyndyrn a Chas-gwent. Mae nifer o gymunedau bychain mewn perygl o lifogydd afonol o isafonydd y brif afon Gwy, gan gynnwys yn Niserth, Ynysgynwraidd, Llanandras a Threfyclo. Yr ardaloedd lle ceir y perygl llanw uchaf yw Cas-gwent, Tyndyrn a Morfa Gwent. Mae nifer o eiddo'n cael llifogydd, ac mae'r brif ffordd yn Nhyndyrn wedi cau am yr oriau ar adeg llanw uchel. Mae Cas-gwent mewn perygl o lanw uchel yn yr ardal sudd i fyny'r afon o bont y rheilffordd. Mae Morfa Gwent yn ardal o dir sydd wedi ei adennill ac sy'n wastad iawn, gydag amddiffynfeydd a allai gael eu peryglu petai'r dŵr yn uwch. Byddai effaith peryglu'r amddiffynfeydd hyn yn debyg i'r rhai a gafwyd mewn rhannau eraill o'r wlad, megis yng Ngwastadeddau Gwlad yr Haf yn ystod gaeaf 2013/14.

Mae dŵr wyneb a llifogydd carthffosydd yn digwydd ledled y dalgyllch, a hynny'n fwyaf cyffredin yn yr ardaloedd mwy trefol megis Llanfair-ym-Muallt, Trefynwy a Chas-gwent. Mae nifer o gymunedau mewn perygl hefyd o lifogydd o gysiau dŵr cyffredin.

Mae gan y rhan fwyaf o'r prif ganolfannau poblogaeth ar hyd afon Gwy fesurau lliniaru llifogydd yn eu lle er mwyn lleihau'r perygl llifogydd i eiddo a seilwaith. Mae hyn yn cynnwys yn Llanfair-ym-Muallt, Clas-ar-Wy, Trefynwy a Chas-gwent.

Perygl a phroblemau llifogydd yn y dalgylch yn y dyfodol

Bydd perygl llifogydd yn y dyfodol yn cael ei ddylanwadu'n bennaf gan y newid yn yr hinsawdd, ond hefyd gan newid y defnydd o dir a rheoli tir gwledig. Mae'r cynnydd yn y perygl llifogydd yn y dyfodol yn tueddu i fod fwyaf mewn trefi ger genau afonydd, neu lle mae'r dylanwad llanw yn teithio i mewn i'r tir i fyny aber. Dyna lle mae effeithiau lefel y môr a chynnydd mewn glawiad yn cyfuno, gan arwain at lifogydd mwy cyson, dyfnach a helaethach yn y dyfodol. Byddai disgwyl i'r senario hon gael effaith sylweddol ar ardaloedd megis Morfa Gwent, Tyndyrn a Chas-gwent. Mewn senarios yn y dyfodol, bydd yr ardaloedd sydd â llawer o amddiffynfeydd yn y dalgylch yn fwy agored i gael dŵr yn codi'n uwch, a gallai ardaloedd megis Llanfair-ym-Muallt, Clas-ar-Wy, Trefynwy a Chas-gwent brofi rhagor o lifogydd dŵr wyneb.

Gwaith rheoli perygl llifogydd yn y dalgylch


Mae gan ran uchaf afon Gwy yng Nghymru fodel newydd i ragweld llifogydd ar y gweill, a bydd o fudd i bob cymuned sydd â gwasanaeth rhybudd llifogydd a bydd hefyd yn gymorth i ragweld ar gyfer rhannau canol ac isaf dalgylch afon Gwy. Yn ogystal â'r camau rheoli perygl llifogydd, bu hefyd lawer iawn o waith ymwybyddiaeth o lifogydd yn y dalgylch, gan gynnwys cnocio drysau, sesiynau galw heibio ar y cyd â sefydliadau partneriaethol, a datblygu cynlluniau llifogydd personol, cymunedol, ar gyfer ysgolion a busnesau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi gweithio ar gynyddu'r nifer sy'n cofrestru i dderbyn y gwasanaeth rhybuddion llifogydd yn rhad ac am ddim er mwyn sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cymryd i ddiogelu pobl ac eiddo.

Y prif gymunedau lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynllunio camau (Mae'r Cymunedau sydd wedi'u Duo yn y 40 Uchaf yng Nghymru)

Mae yna nifer o gymunedau yn y dalgylch lle mae rhagor eto i'w wneud i reoli a lleihau'r perygl llifogydd. Mae Adran 2.2 o'r adroddiad hwn yn nodi sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn blaenoriaethu gwaith ar sail perygl er mwyn mynd i'r afael â'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl yn gyntaf.

Tabl 3.9: Y prif gymunedau

| Label | Cymuned | Label | Cymuned |
|-------|-----------------|-------|--------------------|
| 1 | Cas-gwent | 6 | Llanwrtyd |
| 2 | Merthyr Tewdrig | 7 | Talgarth |
| 3 | Tintern Parva | 8 | Llyswen |
| 4 | Trefynwy | 9 | Llanfair-ym-Muallt |
| 5 | Clas-ar-Wy | | |



Allwedd

-  Prif Afonydd
-  Prif Gymunedau Gwy
-  Dalgylch Rheoli Afon Gwy
-  Dalgylchoedd Rheoli Eraill RBD Hafren

0 2 4 8 12 16
Cilometrau



© Hawffraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2013.
© Crown copyright. All rights reserved.
Natural Resources Wales, 100019741, 2013.

Ffigur 3.7: Y prif gymunedau yn nalgylch afon Gwy yng Nghymru

Tabl 3.10: Dalgylch afon Gwy yng Nghymru – mesurau

Mae'r cynllun cyflenwi dalgylchoedd presennol yn nodi, ar sail cymunedau, beth yw'r mesurau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu cymryd eisoes; wrthi'n eu cymryd; neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn helpu i reoli'r perygl llifogydd i'r gymuned honno. Mae hyn yn darparu rhestr o fesurau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu eu cymryd o fewn y dalgylch hwn dros y blynyddoedd nesaf, yn ddibynol ar asesu a chyfiawnhau'r gost.

| Lleoliad | Tarddiad | Enw'r Mesur | Mesurau | Cyswllt ag amcan Cymreig FRMP amcan | Amseriad | Blaen-oriaeth | Statws y Mesur | Awdurdod cyfrifol |
|-----------|-----------------|---|------------|-------------------------------------|----------|---------------|----------------|------------------------|
| Trefynwy | Prif Afon | Gwella'r gwasanaeth rhybudd llifogydd presennol | M4 - Parod | 1 2 4 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Cynnal y cynllun llifogydd cymunedol wedi'i gwblhau | M4 - Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Gwneud asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | M2 - Atal | 1 2 3 8 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cas-gwent | Prif Afon / Môr | Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd. | M3 – Parod | 1 2 | Cyfredol | Uchel lawn | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Cynnal asesiad ar y strwythurau presennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | M2 – Atal | 1 2 3 | Cyfredol | Uchel lawn | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Gwneud gwelliannau hydrometrig a thelemetrig | M4 – Parod | 1 3 4 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| Lleoliad | Tarddiad | Enw'r Mesur | Mesurau | Cyswllt ag amcan Cymreig FRMP amcan | Amseriad | Blaen-oriaeth | Statws y Mesur | Awdurdod cyfrifol |
|--------------------|----------------------|--|------------|-------------------------------------|----------|---------------|----------------|------------------------|
| Clas-ar-Wy | Prif Afon | Gwneud gwelliannau hydrometrig a thelemetreg | M4 - Parod | 1 3 4 | Cyfredol | Uchel | Arfaethedig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Clas-ar-Wy | Prif Afon | Diweddarau'r model hydrolog | M2 – Atal | 3 | Cyfredol | Uchel | Arfaethedig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llanwrtyd | Prif Afon | Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd. | M2 – Atal | 1 2 | Cyfredol | Canolig | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llanfair-ym-Muallt | Prif Afon | Gwella'r gwasanaeth rhybudd llifogydd presennol | M4 – Parod | 1 2 4 | Cyfredol | Canolig | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llanfair-ym-Muallt | Prif Afon | Datblygu model newydd i ragweld llifogydd | M4 – Parod | 1 2 3 4 | Cyfredol | Canolig | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llyswen | Prif Afon | Adolygu hydroleg | M4 - Parod | | Cyfredol | Canolig | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Talgarth | Dyfrffyrdd Cyffredin | Ymgysylltu gyda'r gymuned er mwyn sefydlu cynllun llifogydd ar gyfer y gymuned | M4 – Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | CS Powys |
| Merthyr Tewdrig | Prif Afon / Môr | Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd. | M2 – Atal | 1 2 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Tintern Parva | Prif Afon / Môr | Gwneud gwelliannau hydrometrig a thelemetrig | M4 – Parod | 1 3 4 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |


3.7b. Dalgylch afon Gwy yn Lloegr

Cyflwyniad i'r dalgylch

Mae dalgylch afon Gwy yn ymestyn o Gas-gwent yn y de-ddwyrain i fyny at Raeadr Gwy yn y gogledd-ddwyrain, dros ardal sy'n 4,180 km².

Gwledig yn bennaf yw'r dirwedd, sef cymysgedd o goetir a thir ffermio agored yn amrywio o'r ucheldir serth ym Mynyddoedd Cambria yn rhan uchaf y dalgylch. Yn islaw na'r Gelli (sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr) mae'r dirwedd yn newid i iseldir mwy gwastad wrth i orlifdir afon Gwy ledaenu. Mae Llynnoedd Letton yn darparu storfa ddŵr naturiol sy'n gymorth i liniaru llifau'r afon, ac yn ystod llifogydd mae'n lleihau anterth llif i lawr yr afon yn Henffordd. Heibio Ross-on-Wye, mae'r gorlifdir y dechrau culhau eto wrth i afon Gwy dorri drwy'r calchfaen yn yr ardal i ffurfio dyffryn/ceunant serth o Symonds Yat yr holl ffordd i Gas-gwent lle mae afon Gwy yn ymuno â Môr Hafren.

Ffigur 3.8: Dalgylch afon Gwy



Rheolaeth a'r defnydd o dir

Amaethyddol yn bennaf yw'r defnydd o dir yn y dalgylch, gyda chymysgedd o laswelltir â'r sy'n cael ei reoli a ffermio ar laswelltir garw. Rhwng ardaloedd iseldir Dyffryn Gwy rhwng Llanllieni, Ross-on-Wye a'r Gelli, amaethyddiaeth ddwys yn bennaf yw'r defnydd o dir, gyda rhywfaint o arddio marchnad.

Mae yna nifer o ganolfannau trefol, gan gynnwys Henffordd, Llanllieni, Ross on Wye. Mewn rhannau eraill, mae twristiaeth yn allweddol i les ariannol y cymunedau gwledig llai, yn enwedig yn rhannau isaf Dyffryn Gwy.

Mae cyrsiau dŵr yn y dalgyrch yn cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys hamdden, cyflenwi dŵr yfed, pysgodfeydd a chadwraeth. Mae'r ardal yn doreithiog ei thirwedd a'i bywyd gwyllt.

Daeareg

Mae Hen Dywodfaen Coch yn tra-arglwyddiaethu ar y ddaeareg yn nalgyrch afon Gwy. Yn nalgyrch rhannau uchaf afon Gwy, mae cerrig silt â gronynnau mân a cherrig llaid/sialau'n bresennol hefyd. Ar hyn y ffin ddwyreiniol ac yn y pen mwyaf deheuol, mae ardaloedd o galchfaen a mesuriadau o lo (ochr orllewinol Fforest y Ddena).

O fewn y dalgyrch uchaf mae'r priddoedd yn cael eu draenio'n gymharol wael, a gall hyn arwain at ddŵr ffo cyflym.

Dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol

Mae dalgyrch afon Gwy yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gyda'r ardal yn Lloegr yn cynnwys nifer o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) yn y dalgyrch ynghyd â nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) a rhai Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. Mae SAC Safleoedd Ystumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena yn gyfuniad o safleoedd i gyfeiriad de'r dalgyrch rheoli yn ardal gyffredinol Cinderford a Lydney. Mae SAC Coetiroedd Dyffryn Gwy yn cynnwys cyfres o safleoedd ar hyd Afon Gwy, yn ymestyn o Gasgwent i ardal Ross-On-Wye. O'i gyferbynnu, mae SAC Afon Gwy yn ddynodiad llinellol helaeth sy'n ymestyn o un pen i'r Afon Gwy i'r llall, o'i chydliwiad â Môr Hafren yng Nghasgwent i ucheldir Cymru ar ffin orllewinol y dalgyrch. Mae hyn hefyd yn cynnwys darn o Afon Llugwy hyd at ardal i'r de o Lanllieni. O'r naill ben i'r llall, mae Afon Llugwy hefyd yn SSSI sydd wedi'i ddynodi'n genedlaethol, mae hyn yn ymestyn i ardal drawsffiniol Cymru. Mae dalgyrch afon Gwy yn cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Dyffryn Gwy, sydd hefyd yn ymestyn i'r ardal drawsffiniol yng Nghymru.

Mae'r safleoedd dynodedig i'w cael ymhob rhan o'r dalgyrch, ac mae'r ffordd y cânt eu rheoli yn gallu cael effaith ar berygl llifogydd (drwy effeithio ar y dŵr wyneb ffo i Afon Hafren a'i hisafonydd).

Mae'r dalgyrch yn cynnwys amrywiaeth o asedau treftadaeth dynodedig, megis henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, parciau a gerddi cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth, yn ogystal ag amrywiaeth eang o asedau treftadaeth nad ydynt yn rhai dynodedig ac a nodwyd yng Nghofnodion Amgylcheddol Hanesyddol yr awdurdod lleol. Mae'r adnodd hwn o asedau treftadaeth yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r amgylchedd dŵr megis argaeau, melinau dŵr a phontydd, yn ogystal â'r potensial ar gyfer olion archaeolegol, gan gynnwys dyddodion mawn a sianelau amgylcheddol hynafol yn gysylltiedig â sianelau afonydd blaenorol, gorlifdroedd a nodweddion dŵr eraill. Mae llawer o asedau treftadaeth o werth tirwedd hanesyddol hefyd, megis y rhai sy'n gysylltiedig â phatrymau caeau, gwrychoedd, coetir a choed hynafol, ac maent yn cyfrannu at gymeriad a unigrywedd y dirwedd yn ehangach. Enghreifftiau o drefi hanesyddol ar lan yr afon yn y dalgyrch yw Henffordd a Llanllieni.

Gweithio mewn partneriaeth

O fewn dalgylch afon Gwy, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu perthynas waith dda gyda phartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau lleol. Mae dalgylch afon Gwy yn Lloegr yn dod o fewn un awdurdod unedol a rhan o ddau gyngor lleol, gan gynnwys Cyngor Swydd Henffordd, Dosbarth Fforest y Ddena a Dosbarth Bryniau Malvern.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordirol, Fforymau Cydnerthedd Lleol, Severn Trent Water plc, Dŵr Cymru, Natural England, Historic England ac archeolegwyr a swyddogion cadwraeth awdurdodau lleol.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn parhau i weithio, a chryfhau cysylltiadau, gyda Phartneriaeth Dalgylch Afon Gwy a phartneriaid eraill i ddarparu amrywiaeth o welliannau amgylcheddol ac ecolegol o fewn Cynlluniau Adfer Afonydd SAC Gwy a Llugwy ac i gyrraedd targedau Strategaeth Bioamrywiaeth Lloegr (2020).

Llifogydd hanesyddol

Gellir rhannu llifogydd yn nalgylch afon Gwy yn ddau gategori, sef rhai sy'n cael eu harwain gan yr afon neu'r llanw. Peth prin yw cael cyfuniad o ddigwyddiad sylweddol o'r ddau, er y bydd un yn wastad yn dylanwadu ar y llall, yn enwedig yn yr ardal i lawr yr afon o Drefynwy.

Effeithir ar nifer o leoliadau, gan gynnwys Henffordd, Ross-on-Wye, Llanllieni, Redbrook and Phwll Brochfael, ac mae llifogydd llanw hefyd yn effeithio ar y ddau olaf.

Mae yna hanes hir o lifogydd afonol yn y dalgylch. Digwyddodd y llifogydd mwyaf arwyddocaol a gofnodwyd yn 1947 gan effeithio ar niferoedd mawr o eiddo yn Henffordd. Bu'r effeithiau ledled y dalgylch. Yn fwy diweddar, mae llifogydd wedi digwydd i raddau amrywiol yn 2012, 2007 a 2000 gan effeithio ar lawer o gymunedau gan gynnwys Lydbrook, Ross-on-Wye a Hampton Bishop, er nad oeddent mor fawr. Cafwyd digwyddiadau nodedig eraill yn 1929, 1960, 1979 a 1998.

Yn rhannau isaf afon Gwy, mae llifogydd llanw wedi cael effaith hefyd ar gymunedau megis Pwll Brochfael. Bu'r digwyddiad mwyaf diweddar yn 2014, a bu'r digwyddiad uchaf a gofnodwyd yn Rhagfyr 1981.

Mae llifogydd afonol o afon Gwy neu ei hisafonydd wedi effeithio hefyd ar gymunedau gan gynnwys Ewylas Harold, Kington, Eardisland, Pontrilas Mordiford a Bishops Frome.

Mae nifer o gymunedau wedi cael llifogydd o ganlyniad i ddŵr wyneb a chyrsgau dŵr cyffredin yn y dalgylch, gan gynnwys y mwyaf diweddar yn 2012.

Perygl cyfredol o lifogydd

Mae llifogydd cyson a lefel isel yn Nyffryn Gwy, gan effeithio ar orlifdir amaethyddol a gwledig. Mae llifogydd o Afon Gwy yn Llynnoedd Letton ger y Gelli yn beth cyffredin, ac er

bod y digwyddiadau sy'n digwydd amlaf yn tarfu ar gymunedau lleol, cymharol isel yw nifer yr eiddo yr effeithir arnynt yn uniongyrchol.

Yn ystod digwyddiadau mwy o faint, megis y rhai a gafwyd yn 1947, effeithir ar niferoedd sylweddol o eiddo ledled y dalgylch. Effeithir hefyd ar seilwaith cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys is-orsafoedd cyfleustodau a'r prif lwybrau trafniadaeth, gan arwain at ynysu llawer o gymunedau gwledig. Mae'r prif beryglon llifogydd afonol ar afon Gwy i'w cael yn Henffordd ac i lawr yr afon yn Nhrefynwy. Trefi eraill ar afon Gwy lle ceir rhywfaint o berygl llifogydd yw'r Gelli a Ross-on-Wye, ac mae rhannau o Lanllieni ar afon Llugwy hefyd mewn perygl o lifogydd. Mae nifer o gymunedau llai mewn perygl o lifogydd afonol o isafonydd prif afon Gwy, gan gynnwys yn Ewylas Harold, Kington, Eardisland, Mordiford a Bishops Frome.

Mae yna nifer o gyrsiau dŵr yn y dalgylch sy'n ymateb yn gyflym i lawogydd. Mae'r rhain yn cynnwys yr afon Deur sy'n effeithio ar Dorestone a Peterchurch a chwrs dŵr dienw yn effeithio ar Pontshill. Yn y dalgylchoedd hyn lle ceir fflachlifo, gall lefelau llifogydd godi'n sydyn gan gynyddu'r perygl i fywyd.

Mae cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd llanw o aber afon Gwy yn cynnwys Elmdale ar ochr Seisnig afon Gwy yng Ngas-gwent a Phwll Brochfael.

Mae yna berygl o ddŵr wyneb a llifogydd carthffosydd mewn rhai lleoliadau trefol yn y dalgylch. Mae nifer o gymunedau mewn perygl hefyd o gyrsiau dŵr cyfredin yn gorlifo.

Mae gan y rhan fwyaf o'r prif ganolfannau poblogaeth ar hyd afon Gwy fesurau lliniaru llifogydd yn eu lle i leihau'r perygl llifogydd i eiddo a seilwaith. Mae hyn yn cynnwys rhan o Henffordd ac yn Hampton Bishop (The Stank). Mae yna hefyd gynllun lliniaru llifogydd yn Lanllieni i liniaru llifogydd i rannau o'r dref rhag afon Llugwy.

Gwaith diweddar i reoli perygl llifogydd

Mae nifer fechan o gynlluniau lliniaru llifogydd wedi cael eu hadeiladu ar hyd Afon Gwy yn ystod y degawd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys amddiffynfeydd y gellir eu tynnu oddi wrth ei gilydd drwy Henffordd. Mae cynllun dan arweiniad y cyngor lleol ar Yazor Brook yn Henffordd wedi cael ei hadeiladu i leihau'r perygl llifogydd yn y rhan hon o'r ddinas fel rhan o raglen adfywio gyffredinol. Mae amddiffynfeydd llifogydd parhaol hefyd wedi cael eu hadeiladu i lawr yr afon o Henffordd o gwmpas pentref Hampton Bishop. Codwyd amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Ross-on-Wye hefyd er mwyn diogelu eiddo rhag nifer o gyrsiau dŵr trefol gan gynnwys Rudhall Brook sy'n isafonydd i afon Gwy.

Cysylltu â Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren

Mae Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren yn nodi'r hyn sydd ei angen er mwyn cyrraedd safonau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn nalgylch rheoli afon Gwy. Y materion pwysig yn y dalgylch hwn yw llygredd ymledol, arllwysiadau carthffosiaeth ac addasiadau corfforol, sef coredau'n bennaf.

Pan ganfuwyd methiant, aseswyd amrywiaeth o fesurau y byddai eu hangen er mwyn gwella statws yr ardaloedd dyfrol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud asesiad o'r mesurau sydd eu hangen i gael manteision cadarnhaol i'r amgylchedd dŵr ac i gymdeithas. Mae'r mesurau wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd i sicrhau bod effaith gronol y 'dalgyllch' yn cael ei hystyried.

Yn ogystal â'r mesurau sydd eu hangen i wella statws ardaloedd dyfrol, mae angen mesurau eraill i:

- Amddiffyn neu wella 'ardaloedd gwarchoddedig' o fewn y dalgyrch gweithredol
- Atal ardaloedd dyfrol rhag dirywio o'u statws cyfredol.

Bydd rhai o'r mesurau hyn o fudd i fwy nag un ardal ddyfrol neu ddalgyrch, ac mae rhai ohonynt yn benodol iawn. Mae effaith gronol a manteision mesurau ar gyfer y dalgyrch gweithredol wedi cael eu hystyried.


Ystadegau allweddol

Mae'r adrannau a ganlyn yn darparu ystadegau allweddol ar gyfer gwahanol darddiadau perygl llifogydd o fewn y dalgyrch.

Llifogydd o afonydd a'r môr

Yn y dalgyrch hwn, mae tua 23,600 o bobl mewn perygl o lifogydd afonydd, sef 9% o'r holl boblogaeth. Mae bron i 6,950 o eiddo dibreswyl mewn perygl llifogydd afonol, a 1,900 o'r rheini â risg uchel. Mae tua 10% o dir amaethyddol o fewn y dalgyrch mewn perygl o lifogydd, a 10,100 mewn risg uchel.

Ffigur 3.9: Aseiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol yn nalgylch afon Gwy yn Lloegr



Datblygwyd a chyhoeddwyd y map llifogydd afonydd a môr gan Asiantaeth yr Amgylchedd

Tabl 3.11: Crynodeb o berygl llifogydd o afonydd a'r môr i bobl, gweithgarwch economaidd a'r amgylchedd naturiol a hanesyddol ledled dalgylch afon Gwy.

| Afon a Môr | Cyfanswm yn y Dalgylch | Risg uchel | Risg canolig | Risg isel yn y | Risg isel iawn |
|---|-------------------------------|-------------------|---------------------|-----------------------|-----------------------|
| Risg i bobl: | | | | | |
| Nifer y bobl yn yr ardal: | 261,150 | 3,950 | 5,150 | 10,500 | 4,000 |
| Nifer y gwasanaethau: | 1,250 | 80 | 20 | 60 | <10 |
| Risg i weithgarwch economaidd: | | | | | |
| Nifer yr eiddo dibreswyl: | 87,750 | 1,900 | 1,600 | 2,650 | 800 |
| Nifer y meysydd awyr: | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pellter y ffyrdd (km): | 530 | 20 | 20 | 20 | <10 |
| Pellter y rheilffyrdd (km): | 130 | <10 | <10 | <10 | <10 |
| Tir amaethyddol (ha): | 176,450 | 10,100 | 3,300 | 3,350 | 1,450 |
| Risg i'r amgylchedd naturiol ac amgylcheddol: | | | | | |
| Nifer y dyfroedd ymdrochi a ddynodwyd gan yr UE o fewn 50m: | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Nifer y safleoedd EPR o fewn 50m: | 85 | 4 | 2 | 3 | 1 |
| Arwynebedd SAC o fewn yr ardal (ha): | 10,350 | 1,950 | 300 | 50 | <50 |
| Arwynebedd SPA o fewn yr ardal (ha): | 19,950 | 200 | 150 | <50 | <50 |
| Arwynebedd safle RAMSAR o fewn yr ardal (ha): | 50 | 50 | 0 | <50 | <50 |
| Arwynebedd Safle Treftadaeth y Byd o fewn yr ardal (ha): | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arwynebedd SSSI o fewn yr ardal (ha): | 35,700 | 2,300 | 450 | 100 | <50 |
| Arwynebedd Parciau a Gerddi o fewn yr ardal (ha): | 5,150 | 100 | 50 | <50 | <50 |
| Arwynebedd Henebion Rhestredig o fewn yr ardal (ha): | 1,000 | <50 | <50 | <50 | <50 |
| Nifer yr Adeiladau Rhestredig o fewn yr ardal: | 7,570 | 290 | 180 | 380 | 80 |
| Nifer yr echedyniadau dŵr trwyddedig o fewn yr ardal: | 770 | 320 | 50 | 20 | <10 |

Nodyn:

SAC - Ardal Cadwraeth Arbennig

SPA - Ardal Gwarchodaeth Arbennig

SSSI – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig


Ramsar - ardal gwlyptir o bwysigrwydd rhwngwladol

Safleoedd EPR - y rhai a gofrestrwyd dan y Rheoliadau Trwyddedu Ewropeaidd

Llifogydd o gronfeydd dŵr

Mae dros 4,200 o bobl mewn perygl llifogydd o gronfeydd dŵr yn Nalgylch Afon Gwy yn Lloegr, sef tua 2 % o holl boblogaeth y dalgylch. Mae tua 1,600 o eiddo dibreswyl mewn perygl llifogydd o gronfeydd dŵr yn Nalgylch Afon Gwy yn Lloegr. Tua 3.2% o'r tir amaethyddol yn y dalgylch sydd mewn perygl o lifogydd o gronfeydd dŵr. Tua 4.8% o'r safleoedd SSSI, a llai na 50 o safle Ramsar, sydd mewn perygl o lifogydd yn yr ardal.

Ffigur 3.10: Hyd a lled perygl llifogydd o gronfeydd dŵr yn nalgylch afon Gwy yn Lloegr



Datblygwyd a chyhoeddwyd y map llifogydd cronfeydd dŵr gan Asiantaeth yr Amgylchedd

Tabl 3.12: Crynodeb o berygl llifogydd o gronfeydd dŵr i bobl, gweithgarwch economaidd a'r amgylchedd naturiol a hanesyddol ledled dalgylch afon Gwy.

| Cronfeydd dŵr | Cyfanswm yn y Dalgylch | Uchafswm hyd a lled y llifogydd |
|---|-------------------------------|--|
| Risg i bobl | | |
| Nifer y bobl yn yr ardal: | 261,150 | 4,200 |
| Nifer y gwasanaethau: | 1,250 | 50 |
| Risg i weithgarwch economaidd: | | |
| Nifer yr eiddo dibreswyl: | 87,750 | 1,600 |
| Nifer y meysydd awyr: | 0 | 0 |
| Pellter y ffyrdd (km): | 530 | 30 |
| Pellter y rheilffyrdd (km): | 130 | <10 |
| Tir amaethyddol (ha): | 176,450 | 5,650 |
| Risg i'r amgylchedd naturiol a hanesyddol: | | |
| Nifer y dyfroedd ymdrochi a ddynodwyd gan yr UE o fewn 50m: | 0 | 0 |
| Nifer y safleoedd EPR o fewn 50m: | 85 | 1 |
| Arwynebedd SAC o fewn yr ardal (ha): | 10,350 | 1,450 |
| Arwynebedd SPA o fewn yr ardal (ha): | 19,950 | 200 |
| Arwynebedd safle RAMSAR o fewn yr ardal (ha): | 50 | <50 |
| Arwynebedd Safle Treftadaeth y Byd o fewn yr ardal (ha): | 0 | 0 |
| Arwynebedd SSSI o fewn yr ardal (ha): | 35,700 | 1,700 |
| Arwynebedd Parciau a Gerddi o fewn yr ardal (ha): | 5,150 | 100 |
| Arwynebedd Henebion Rhestredig o fewn yr ardal (ha): | 1,000 | <50 |
| Nifer yr Adeiladau Rhestredig o fewn yr ardal: | 7,570 | 270 |
| Nifer yr echydyniadau dŵr trwyddedig o fewn yr ardal: | 770 | 130 |

Nodyn:

SAC - Ardal Cadwraeth Arbennig

SPA - Ardal Gwarchodaeth Arbennig

SSSI - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Ramsar - ardal gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol

Safleoedd EPR - y rhai a gofrestrwyd dan y Rheoliadau Trwyddedu Ewropeaidd

Casgliadau ac amcanion ar gyfer dalgylch afon Gwy

Casgliadau

Mae gan ddalgylch afon Gwy amrywiaeth eang o broblemau llifogydd, gan gynnwys cyfnodau estynedig o lefelau uchel o fewn dyffryn afon Gwy sy'n effeithio ar lawer o gymunedau gwledig, llifogydd o isafonydd afon Gwy sy'n rhedeg drwy rai o'r ardaloedd trefol llai, llifogydd o ddalgylchoedd sy'n ymateb yn gyflym a llifogydd llanw o Fôr Hafren.

Yn y dyfodol, cynnydd yn amllder a dwyster glawogydd, ar y cyd â dalgylchoedd sy'n ymateb yn gyflym, fydd y bygythiad mwyaf i'r ardaloedd uwch a rhai isafonydd lle mae nifer gymharol fawr o gymunedau bach i ganolig wedi'u dosbarthu dros ardal eang. Mae'n anodd darparu rhybuddion cywir ac amserol yn y dalgylchoedd sy'n ymateb yn gyflym. Hefyd, mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynyddu'r pwysau ar y lleoliadau presennol lle mae llifogydd dŵr wyneb yn digwydd.

Mae angen parhau i weithio mewn partneriaeth ag eraill lle bo modd er mwyn cyflawni mesurau rheoli perygl llifogydd i liniaru llifogydd o darddiadau lluosog, yn ogystal â darparu manteision amgylcheddol ehangach a manteision eraill i wella'r amgylchedd naturiol, gwledig ac adeiledig sy'n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Amcanion

Mae'r amcanion a ganlyn yn berthnasol i'r dalgylch rheoli hwn, lle bo modd a lle bo'n hyfyw gwneud hynny. Mae'r colofnau ar y dde yn dangos sut y mae amcanion y dalgylch yn cysylltu ag afon Hafren yn Lloegr ac amcanion lefel yr RBD:

Tabl 3.13: Amcanion cymdeithasol ar gyfer dalgylch afon Gwy yn Lloegr

| Amcanion Cymdeithasol | Cysylltiadau | |
|---|-----------------------|------------------------------|
| | Amcanion lefel yr RBD | Amcanion lefel Hafren Lloegr |
| Lleihau neu atal cynnydd mewn niwed i fywyd o ganlyniad i lifogydd | RBD 2 | Soc B |
| Tarfu cyn lleied ag y bo modd ar y gymuned drwy leihau effaith llifogydd drwy fod yn fwy parod o ganlyniad i well rhybudd perygl llifogydd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd | RBD 7, 9, 10 | Soc D, G |
| Llywio datblygiad tuag at ardaloedd sydd â pherygl llifogydd prin neu ddim perygl, pan fo datblygiad yn gorfod digwydd mewn ardaloedd perygl llifogydd canolig neu uwch rhaid iddo fod yn gynaliadwy, dim yn cynyddu'r perygl llifogydd ac ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd | RBD 1, 11 | Soc E |
| Gwella ymwybyddiaeth mewn dalgylchoedd sy'n ymateb yn gyflym i lawiad | RBD 2, 9 | Soc C |
| Cynyddu dealltwriaeth a rheolaeth o effeithiau perygl llifogydd | RBD 6, 11 | Soc A |
| Parhau i weithio gyda darparwyr cyfleustodau i wella cydnerthedd seilwaith a gwasanaethau | RBD 1, 8, 10, 11 | Soc A, F |
| Parhau i weithio gyda chyrrff eraill i wella cydnerthedd i'r rhwydwaith gyfathrebu a'r cysylltiadau trafndiaeth | RBD 1, 8, 10, 11 | Soc A, F |
| Cynnal asedau cyfredol sy'n amddiffyn pobl lle bo hynny'n hyfyw yn economaidd neu ganfod dewisiadau addas eraill drwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau | RBD 6, 11, 12 | Soc A |

Tabl 3.14: Amcanion economaidd ar gyfer dalgylch afon Gwy yn Lloegr

| Amcanion Economaidd | Cysylltiadau | |
|---|-----------------------|------------------------------|
| | Amcanion lefel yr RBD | Amcanion lefel Hafren Lloegr |
| Lleihau difrod economaidd i eiddo masnachol | RBD 1 | Ec A |
| Lleihau perygl llifogydd i eiddo preswyl | RBD 1 | Ec A |
| Lleihau perygl llifogydd i dir amaethyddol | RBD 1 | Ec E |
| Sicrhau bod y buddsoddiad yn y dalgylch yn y presennol a'r dyfodol yn gymesur â'r perygl llifogydd | RBD 3, 5 | Ec C |
| Lleihau perygl llifogydd i seilwaith pwysig | RBD 1, 8, 10 | Ec B, Soc F |
| Cefnogi'r sector amaethyddol i reoli perygl llifogydd a gwelliannau parhaus i amaethyddiaeth gynaliadwy | RBD 1, 11 | Ec D |
| Cefnogi twristiaeth drwy leihau perygl llifogydd a gwella coridorau afonydd | RBD 1, 4 | Ec B, En D, G |

Tabl 3.15: Amcanion amgylcheddol ar gyfer dalgylch afon Gwy yn Lloegr

| Amcanion Amgylcheddol | Cysylltiadau | |
|--|-----------------------|------------------------------|
| | Amcanion lefel yr RBD | Amcanion lefel Hafren Lloegr |
| Manteisio ar gyfleoedd i adfer storffeydd naturiol o ddŵr llifogydd ar isafonydd yn eu hardaloedd i fyny'r afon, er mwyn gwrthbwysu'r perygl uwch o lifogydd o ganlyniad i dueddiadau gan gynnwys newid yn yr hinsawdd | RBD 11 | En A |
| Gwella'r amgylchedd dŵr drwy weithgareddau rheoli perygl llifogydd | RBD 1, 4 | En D, E |
| Gwella morffoleg dŵr afonydd | RBD 1, 4 | En D |
| Lleihau effeithiau llifogydd ar safleoedd dynodedig neu ardaloedd o ddiddordeb amgylcheddol | RBD 1, 4 | En C, F |
| Cynnal a gwella cynefin drwy weithgareddau rheoli perygl llifogydd | RBD 4 | En B |
| Helpu i gyflawni Amcanion WFD drwy Reoli Perygl Llifogydd | RBD 1, 4 | En E |
| Gweithio gyda phrosesau naturiol lle bynnag y bo modd i gyflawni amcanion WFD | RBD 1, 4 | Env E |
| Amddiffyn a gwella tirweddau dynodedig a chymeriad y dirwedd leol | RBD 1, 4 | En C, G |
| Cadw a gwella asedau treftadaeth (wedi'u dynodi a heb eu dynodi) a lleihau niwed i'w harwyddocâd oherwydd llifogydd | RBD 1, 4 | En F |
| Cyfrannu at reoli dŵr dalgylch yn integredig a/neu dull draeniau cynaliadwy | RBD 11 | En A |

Mesurau penodol i ddalgylch afon Gwy

Mae mesurau sy'n berthnasol i'r dalgylch hwn wedi cael eu cynnwys yn y mesurau lefel yr RBD a Hafren Lloegr sydd i'w cael yn Atodiad 1. Hefyd, mae yna fesurau sy'n benodol i'r dalgylch hwn, fel a ganlyn:

Ledled dalgylch afon Gwy yn Lloegr, mae yna 13 o fesurau i reoli perygl llifogydd. Mae'r rhain yn cynnwys;

Atal perygl: Mae yna 3 mesur eisoes yn eu lle i atal perygl llifogydd yn y dalgylch (Codau mesurau M21/M23/M24, yn Atodiad 1):

- parhau i gefnogi datblygiad cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn Henffordd.
- gweithio gyda chymunedau ar hyd aber afon Gwy ac yn Bishops Frome i hyrwyddo amddiffyniad ar lefel eiddo (2 fesur).

Paratoi ar gyfer perygl: Mae yna 3 mesur i baratoi ar gyfer perygl llifogydd sy'n berthnasol i'r dalgylch hwn (Codau mesurau M41/M42/M43/M44 yn Atodiad 1):

- gweithio gyda chymunedau yn Bodenham ac ar aber afon Gwy i annog camau gweithredu i baratoi ar gyfer llifogydd (2 fesur);
- datblygu cynllun ymwybyddiaeth o lifogydd ar gyfer rhannau isaf afon Gwy;

Amddiffyn rhag perygl: Mae yna 7 mesur sy'n amddiffyn rhag perygl llifogydd ac sy'n berthnasol i'r dalgylch hwn (Codau mesurau M32/M34/M35 yn Atodiad 1), gan gynnwys:

- ymchwilio i fesuru i wneud y mwyaf o safon yr amddiffyniad a ddarperir gan Gynllun Lliniaru Llifogydd Llanllieni;
- gweithio gyda'r gymuned yn Ewyas Harold i asesu pa mor bosibl yw mesurau i leihau perygl llifogydd;
- parhau i gynnal a chadw cyrsiau dŵr ar rannau isaf afon Gwy;
- cynnal lefel bresennol yr amddiffynfeydd ar rannau isaf afon Gwy a Henffordd;
- cefnogi Cynlluniau Adfer SAC Afon Gwy ac Afon Llugwy.

Adfer ac adolygu perygl: Nid oes unrhyw fesurau penodol yn y categori hwn, y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 a'r gweithgareddau perygl llifogydd a ddisgrifir yn adran 6.

Mae rhagor o fanylion am y mesurau penodol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

3.8. Dalgylch Afon Wysg

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



Allwedd

- Prif Afonydd
- Dalgylch Rheoli Afon Wysg
- Dalgylchoedd Rheoli Eraill RBD Hafren



© Crown copyright. All rights reserved.
Natural Resources Wales, 100019741, 2013.
© Hawffraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2013.

Ffigur 3.11: Dalgylch afon Wysg

Disgrifiad / trosolwg o'r dalgylch

Mae Afon Wysg yn codi ar lethrau gogleddol y Mynydd Du ac yn llifo mewn dalgylch hir a chul o harddwch gwych am ryw 125km i'r de-ddwyrain drwy drefi Aberhonddu, Crucywel, y Fenni a Brynbuga, cyn gwagio i aber afon Wysg yn Nhrecelyn ac yna i Fôr Hafren yng Nghasnewydd. Mae'r dalgylch hwn yn cynnwys gwastatir Gwent i'r de; sef tir mawr o laswelltir arfordirol sydd wedi cael ei adennill ac sydd o bwysigrwydd hanesyddol a chadwraeth natur.

Hen Dywodfaen Coch yn bennaf yw'r dalgylch uchaf, gydag athreiddiad cyfyngedig sy'n hybu glaw i ffoi'n gyflym. Mae'r priddoedd tenau a'r math glaswelltir o dir hefyd yn arwain at lifoedd afon sy'n ymateb yn gyflym i lawogydd trwm. Mae ardaloedd isaf y dalgylch yn parhau'n gymharol ymatebol i law er bod y dyffryn yn mynd yn llai rhychog ac mae'r gorlifdir yn agor allan hyd nes y mae'n cyrraedd Morfa Gwent. Mae'r dalgylch isaf o ardal Caerllion ar Wysg yn fwy agored i ddylanwad llanw na llifogydd afonol.

Mae twristiaeth yn bwysig i'r economi leol, gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chamlas Sir Fynwy a Aberhonddu yn denu ymwelwyr sydd eisiau hamddena yn yr awyr agored. Mae dalgylch afon Wysg yn doreithiog ei bywyd gwyllt, gan gynnwys tri rhywogaeth o lisywen bendoll a bawd y melinydd ac amrywiaeth o gynefinoedd. Mae'r gwerth ecolegol mawr yn cael ei gydnabod drwy ddynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae dalgylch afon Wysg o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ei adrannau uchaf a chanol, ac mae ganddo ddynodiadau gan gynnwys rhan, neu'r cyfan, o 70 o SSSI, 9 Gwarchodfa Natur Leol, 9 Ardal Cadwraeth Arbennig, a mae'r afon ei hun yn SAC ac yn SSSI.

Defnyddir y tir ar gyfer amaethyddiaeth yn bennaf, gyda ffermio defaid yn ucheldir y gogledd a'r gorllewin, a ffermio eidion, llaeth, cymysg ac âr yn iseldir y de a'r dwyrain. O ganlyniad i hynny, mae llygredd o darddiadau gwledig yn bygwth ansawdd bywyd gwyllt a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd dŵr. Mae llawer o gynlluniau yn eu lle i hybu ffermio cyfrifol ac arferion rheoli tir, a bydd y rhain o fudd i lifogydd a statws ecolegol yn y dyfodol. Mae rhywfaint o ddiwydiant yn y trefi mwyaf, ac mae yna borthladd masnachol yng Nghasnewydd. Mae llygredd o garthffosiaeth a dŵr ffo halogedig yn bwysau ar yr ardaloedd trefol mwyaf.

Mae'r blaenddyfroedd a rhai o'i hisafonydd wedi cael eu haddasu gan argaeau i greu cronfeydd dŵr Wysg, Crai, Talybont a Grwyne Fawr. Yn Aberhonddu, mae rhywfaint o lif yr afon yn cael ei ddargyfeirio i borthi Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, ac mae dŵr o rannau isaf afon Wysg yn cael ei bwmpio i gronfa storio dŵr Llandegfedd. Ar wastatir Gwent, mae'r llifau'n cael eu rheoleiddio gan Ddosbarth Draenio Mewnol Caldicot a Wentlooge. Cymerir dŵr o afonydd a ffynonellau tanddaearol i'w ddefnyddio mewn amaethyddiaeth, diwydiant, pŵer dŵr a ffermydd pysgod. Mae'n rhaid parhau i weithio gyda Dŵr Cymru ac eraill i leihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol a achosir gan yr addasiadau corfforol a thynnu dŵr, gan sicrhau'r adnodd gwerthfawr hwn a chynnal lefelau'r llif.

Llifogydd hanesyddol yn y dalgyllch

- Ionawr 1925: cafodd Aberhonddu ei gorlifo gan afon Wysg;
- Mai 1931: dioddefodd y Fenni lifogydd o afon Wysg a achosodd un farwolaeth wedi'i chofnodi. Yn yr un cyfnod, bu llifogydd ym Malpas, Heol Caerleon a Maendy yng Nghasnewydd;
- 1979: bu llifogydd yn Llanfaes a chanol tref Aberhonddu hyd at 1.5 metr o ddyfnder, gydag amcangyfrif fod y difrod yn fwy na miliwn o bunnau. Mae lefelau'r dŵr yn parhau yr uchaf a gofnodwyd yn y rhan fwyaf o leoliadau ar hyd afon Wysg;
- Ebrill 1998: gorlifodd afon Wysg ym Mharc Busnes Elvicta yng Nghrucywel;
- Rhagfyr 2000: daeth llifogydd o nant Malpas yng Ngasnewydd i 130 eiddo, a gorlifodd afon Wysg ac achosi llifogydd mewn 9 eiddo;
- Chwefror 2002: bu llifogydd yng Nghrucywel ac Aberhonddu gan ynysu 100 o bobl yng Nghrucywel a bu llifogydd sylweddol ar ffordd yr A40 rhwng Aberhonddu a Llanyddyfri;
- Nadolig 2013: cofnodwyd y lefel uchaf ar hyd afon Wysg yn y blynyddoedd diweddar, ond prin y cofnodwyd llifogydd i eiddo;
- Ionawr 2014: cofnodwyd y Llanw uchaf yng Nghasnewydd ers llawer blwyddyn, a chafwyd llifogydd mewn 6 eiddo yn ardal Crindau.

Perygl llifogydd yn y dalgyllch ar hyn o bryd

Mae'r perygl llifogydd yn dalgyllch afon Wysg yn amrywio wrth i dopograffeg a tharddiad y perygl newid. Mae'r ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf i'w cael yn aber afon Wysg a'r trefi mwy datblygedig megis Aberhonddu, Brynbuga a Chrucywel. Mae 6 o blith y 100 o gymunedau sydd mewn perygl yng Nghymru i'w cael yn dalgyllch afon Wysg, ac mae'r rhain mewn perygl llifogydd llanw yn bennaf, yn ardal Casnewydd. Caiff y perygl llanw yng Nghasnewydd ei reoli'n bennaf gan gyfres o gynlluniau lliniaru llifogydd, a gweddill y perygl yn yr ardal yw dŵr yn mynd drosodd neu'r cynlluniau hyn yn methu. Caiff y perygl yn y trefi y cyfeiriwyd atynt ei reoli mewn modd tebyg gan gynlluniau a adeiladwyd ers yr 1960au, a gweddill y perygl yw'r cynlluniau'n methu neu ddŵr yn dod drosodd. Mae'r holl brif leoliadau perygl mawr yn elwa ar wasanaeth rhybudd llifogydd ac mae gwaith ymwybyddiaeth ac ymgysylltu wedi cael ei anelu atynt.

Perygl a phroblemau llifogydd yn y dalgyllch yn y dyfodol

Yn y dyfodol, cynnydd yn amllder a dwyster y glawogydd, ar y cyd â dalgyllchoedd sy'n ymateb yn gyflym, fydd y bygythiad mwyaf i'r ardaloedd uchaf lle ceir nifer gymharol fawr o gymunedau bach i ganolog dros ardal eang.

Y bygythiad mwyaf i'r dalgyllch isaf yw lefel y môr yn codi, oherwydd gallai hynny gynyddu perygl llifogydd yn sylweddol yng Ngasnewydd a'r ardaloedd isel yn y cyffiniau ac o bosib newid cymeriad mwy na 2,000 hectar o dir isel sydd wedi'u dynodi ar hyd o bryd fel tri SSSI gwahanol ym Morfa Gwent.

Gwaith diweddar i reoli perygl llifogydd yn y dalgyllch

Cafodd model rhagweld llifogydd ei ddarparu ar gyfer dalgyllch afon Wysg yn gynnar yn 2014. Yn ogystal â hyn, fe wnaeth ymarferiad pwysig i gasglu data yn ystod llifogydd ac ar

eu hôl dros y Nadolig a'r Calan yn 2013/4 arwain at adolygiad graddnodi a throthwy pwysig ar gyfer y gwasanaeth rhybudd llifogydd yn nalgylch afon Wysg.

Yng nghymunedau Maendy a Riverside yng Nghasnewydd, cafodd cynllun lliniaru llifogydd newydd ei godi yn 2012. Y cynllun oedd len-fur llifogydd newydd gyda wal goncridd atgyfnerthedig cantilifer wedi'i glymu mewn wal frics sy'n bodoli eisoes.

Mae yna ymarferiad modelu pwysig wrthi'n cael ei gynnal i geisio gwella gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru am yr holl berygl arfordirol ar hyd De-ddwyrain Cymru. Mae hyn yn cynnwys yr holl berygl llanw ar hyd rhannau arfordirol afon Wysg.

Mae cymunedau Rogiet, Caldicot a Nash ill tair wedi elwa ar arolygon teledu cylch gyfyng ar ddrws môr sydd wedi cyfrannu at oleuo rhaglen gynnal a chadw'r drws môr.


Yn Aberhonddu, atgyweiriwyd mur llifogydd ger Canolfan Feddygol Aberhonddu, ac mae hynny wedi sicrhau bod y gymuned yn cynnal safon dderbyniol o berygl llifogydd.

Y prif gymunedau lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynllunio CAMAU (Mae'r Cymunedau sydd wedi'u Duo yn y 40 Uchaf yng Nghymru)

Mae yna nifer o gymunedau yn y dalgylch lle mae rhagor eto i'w wneud i reoli a lleihau'r perygl llifogydd. Mae adran 2.2 o'r adroddiad hwn yn nodi sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn blaenoriaethu gwaith ar sail perygl er mwyn mynd i'r afael â'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl yn gyntaf.

Tabl 3.16: Prif gymunedau

| Label | Cymuned | Label | Cymuned |
|-------|------------------|-------|--------------------|
| 1 | Maendy | 10 | Broadstreet Common |
| 2 | Liswerry | 11 | Gwndy |
| 3 | Crindau | 12 | Allteuryn |
| 4 | Rogiet | 13 | BRYNBUGA |
| 5 | CASNEWYDD | 14 | ABERHONDDU |
| 6 | Llandyfenni | 15 | Bettws |
| 7 | Caldicot | 16 | Llangatwg |
| 8 | Nash | 17 | Y FENNI |
| 9 | Magor | 18 | Crucywel |



Allwedd

- Prif Afonydd
- Prif Gymunedau Afon Wysg
- Dalgylch Rheoli Afon Wysg
- Dalgylchoedd Rheoli Eraill RBD Hafren

0 1.5 3 6 9 12
 Kilometrau



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
 Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2013.
 © Crown copyright. All rights reserved.
 Natural Resources Wales, 100019741, 2013.

Ffigur 3.12: Y prif gymunedau yn nalgylch afon Wysg

Tabl 3.17: Cynllun cyflenwi dalgylch afon Wysg

Mae'r cynllun cyflenwi dalgylchoedd presennol yn nodi, ar sail cymunedau, beth yw'r mesurau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu cymryd eisoes; wrthi'n eu cymryd; neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn helpu i reoli'r perygl llifogydd i'r gymuned honno. Mae hyn yn darparu rhestr o fesurau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu eu cymryd o fewn y dalgylch hwn dros y blynyddoedd nesaf, yn ddibynnol ar asesu a chyfiawnhau'r gost.

| Lleoliad | Tarddiad | Enw'r Mesur | Mesurau | Cyswllt ag amcan Cymreig FRMP amcan | Amseriad | Blaen-oriaeth | Statws y Mesur | Awdurdod cyfrifol |
|---------------|-----------|---|----------------|-------------------------------------|----------|---------------|----------------|------------------------|
| Maendy | Môr | Codi ymwybyddiaeth am lifogydd o fewn y gymuned | M4 - Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Liswerry | Môr | Datblygu gwerthusiad cynllun ar gyfer y cynllun lliniaru llifogydd. | M2 - Atal | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Crindau | Môr | Datblygu gwerthusiad cynllun ar gyfer y cynllun lliniaru llifogydd. | M2 - Atal | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Codi ymwybyddiaeth am lifogydd o fewn y gymuned | M4 - Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rogiet | Môr | Dylunio ac adeiladu cynllun lliniaru llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 | Cyfredol | Uchel lawn | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Croesyceiliog | Prif Afon | Gwneud asesiad cychwynnol a gwaith | M2 - Atal | 1 2 3 8 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| Lleoliad | Tarddiad | Enw'r Mesur | Mesurau | Cyswllt ag amcan Cymreig FRMP amcan | Amseriad | Blaen-oriaeth | Statws y Mesur | Awdurdod cyfrifol |
|---------------|---------------|---|----------------|-------------------------------------|----------|---------------|----------------|------------------------|
| | | dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | | | | | | |
| Brynbuga | Prif Afon | Gwneud asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | M2 - Atal | 1 2 3 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Arfaethedig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Casnewydd | Môr | Datblygu gwerthusiad cynllun ar gyfer y cynllun lliniaru llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Critigol | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llandyfenni | Môr | Dylunio ac adeiladu cynllun lliniaru llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Caldicot | Môr | Dylunio ac adeiladu cynllun lliniaru llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Aberhonddu | Prif Afon | Asesu gofynion cludiant a rhoi cynnal a chadw ar waith. | M2 - Atal | 1 2 3 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cwm Ffrwd-oer | Prif Afon | Adeiladu Model Hydrologig | M2 - Atal | 3 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Caerleon | Môr/Prif Afon | Gwneud asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd | M2 - Atal | 1 2 3 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Nash | Môr | Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Magor | Môr | Dylunio ac adeiladu cynllun lliniaru llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| Lleoliad | Tarddiad | Enw'r Mesur | Mesurau | Cyswllt ag amcan Cymreig FRMP amcan | Amseriad | Blaen-oriaeth | Statws y Mesur | Awdurdod cyfrifol |
|--------------------|-----------|---|------------|-------------------------------------|----------|---------------|----------------|------------------------|
| Pont-y-pŵl | Prif Afon | Gwneud asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | M2 - Atal | 1 2 3 8 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ponhir | Prif Afon | Gwneud gwelliannau hydrometrig a thelemetrig | M4 – Parod | 1 3 4 | Cyfredol | Uchel lawn | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Adeiladu Model Hydrologig | M2 – Atal | 3 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llangatwg | Prif Afon | Cynnal y cynllun llifogydd cymunedol wedi'i gwblhau | M4 – Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Broadstreet Common | Môr | Gweithredu mesurau amgen i leihau perygl. | M2 – Atal | 1 2 8 | Cyfredol | Isel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |


3.9. Dalgylch Cymoedd y De-ddwyrain

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



Allwedd

- Prif Afonydd
- Dalgylch Rheoli Cymoedd y De-ddwyrain
- Dalgylchoedd Rheoli Eraill RBD Hafren



© Crown copyright. All rights reserved.
Natural Resources Wales, 100019741, 2013.
© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2013.

Ffigur 3.13: Dalgylch Cymoedd y De-ddwyrain

Disgrifiad / trosolwg o'r dalgylch

Y Prif Afonydd yn nalgylch Cymoedd y De-ddwyrain yw afonydd Ebwy a Sirhywi, sy'n llifo i aber afon Wysg ac afonydd Rhymni, Taf ac Elái, sy'n gwagio i Fôr Hafren. Mae'r prif ganolfannau trefol yn cynnwys Aberdâr, Caerffili, Merthyr Tudful, Pontypridd a Chaerdydd, sydd â phorthladd masnachol pwysig. Mae afonydd y 'cymoedd' yn tarddu'n uchel ym Mannau Brycheiniog ac yn llifo drwy ddyffrynnoedd ag ochrau serth i'r ardaloedd arfordirol yng Nghaerdydd a Wentlooge a Morfa Gwent. Mae llethrau'r dyffrynnoedd yn cynnwys glaswelltir rheoleidig a choedwigoedd, tra bo lloriau cul y dyffrynnoedd wedi'u trefoli'n helaeth.

Yn y dalgylch uchaf, mae blaenddyfroedd afon Taf wedi'u haddasu gan gyfres o argaeau a chronfeydd dŵr i gyflenwi dŵr i ddiwydiannau a thrigolion De Cymru. Mae gan yr afonydd gyfundrefn llif sydyn, gyda llawer ohonynt wedi'u categoreiddio'n ddalgylchoedd ymateb cyflym, ac oherwydd y ddaearreg danodd gall rhai isafonydd llai sychu mewn hafau sych iawn.

Gwledig yn bennaf yw dalgylchoedd afonydd Ebwy a Sirhywi, yn rhyng-gyfarfod ag ardaloedd trefol sy'n cael eu cyfyngu gan lethrau dyffrynnoedd serth. Mae'r holl ddalgylchoedd eraill yn cynnwys ochrau serth ac maent yn drefol iawn, gyda'r seilwaith cysylltiedig megis ffyrdd, rheilffyrdd a gwasanaethau sy'n agos yn nodweddiadol at yr afonydd. Mae topograffeg dyffrynnoedd serth yn llawer o'r dalgylch wedi golygu bod datblygiad trefol wedi cael ei gyfyngu o fewn lloriau'r dyffrynnoedd wrth ymyl yr afonydd. O ganlyniad, mae nifer sylweddol o bobl ac eiddo yn agos i gwrs dŵr. Felly, mae'r perygl llifogydd wedi'i grynhai mewn nifer o brif ardaloedd ac nid yw wedi'i wasgaru'n eang ledled y dalgylchoedd.

Cafodd Bae Caerdydd ei greu yn 2000 drwy gronni afonydd Taf ac Elái yn llwyr fel y bo modd ailddatblygu Caerdydd a Phenarth a darparu amddiffynfa llifogydd rhag llanw eithafol Môr Hafren.

Mae'r amgylcheddau arfordirol ac aberol yng Nghymoedd y De-ddwyrain yn cynnwys nifer o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig ac amrywiol, gan gynnwys tair ardal gadwraeth sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol a nifer o ardaloedd sydd wedi'i dynodi'n genedlaethol. Mae Môr Hafren yn safle Ramsar pwysig, yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA) ac yn ymgeisydd am Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC).

Llifogydd hanesyddol yn y dalgylch

Mae dalgylch afon Taf wedi cael llifogydd eang nifer o weithiau dros y 60 mlynedd ddiwethaf. Digwyddodd y rhai mwyaf nodedig yn 1960 a 1979, pryd yr effeithiwyd ar filoedd o eiddo. Digwyddodd y llifogydd mwyaf eang yn ystod y 40 mlynedd ddiwethaf ar 27 a 28 Rhagfyr 1979. Bu llifogydd i rai miloedd o eiddo ledled De Cymru, ac mewn llawer o achosion cyrhaeddodd yr afonydd lefelau sy'n parhau i fod yr uchaf a gofnodwyd erioed. O'i gyferbynnu â hyn, dim ond dau ddigwyddiad mawr y mae dalgylch afon Elái wedi'i gael yn y degawdau diwethaf. Digwyddodd y rhain o ganlyniad i ddŵr glaw trwm yn disgyn ar ddalgylch a oedd eisoes yn wlyb ym mis Mawrth 1998 a mis Hydref 2000. Dim ond ar nifer fechan o eiddo yr effeithiwyd.

Perygl llifogydd yn y dalgylch ar hyn o bryd

Mae 20 o'r 50 o gymunedau sydd fwyaf mewn perygl yng Nghymru i'w cael yn y dalgylch hwn, gan brofi bod hwn yn ddalgylch pwysig iawn o ran perygl llifogydd. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd trefol sydd gerllaw'r Prif Afonydd yn cael eu hamddiffyn, ond nid yw pob un yn cyrraedd safon amddiffyniad 1% o AEP (tebygolrwydd blynyddol). Mae'r dyffrynnoedd ag ochrau serth i gyd yn dueddol o gael llifogydd dŵr wyneb, gyda dŵr ffo oddi ar y llethrau o gwmpas ac mae yna hefyd berygl mawr o geuffosydd yn blocio yn rhannau uchaf y dalgychoedd hyn sy'n ymateb yn gyflym. Y perygl llifogydd mwyaf o bobl ac eiddo yw dŵr yn dod drosodd neu amddiffynfeydd yn methu, yn enwedig mewn rhai ardaloedd yn y dyffrynnoedd lle gallai amddiffynfeydd partion eraill fod mewn cyflwr anhysbys. Byddai'r mathau hyn o ddigwyddiadau'n rhai eithriadol ac yn debygol o effeithio ar ystod eang o dde Cymru.

Mae'r perygl llanw yn y dalgylch hwn yn isel o ran y tebygolrwydd oherwydd Morglawdd Bae Caerdydd, sy'n darparu amddiffyniad sylweddol yn erbyn lefelau uchel y llanw. Mae'r perygl llanw mwyaf i'r dalgylchoedd hyn i'w gael ar wastatir Wentlooge, er bod gwaith sylweddol yn mynd yn ei flaen ac yn yr arfaeth i asesu a chynnal yr amddiffynfeydd.

Perygl a phroblemau perygl llifogydd yn y dalgylch

Bydd perygl llifogydd yn y dyfodol yn cael ei ddylanwadu'n bennaf gan newid yn yr hinsawdd, ond hefyd gan newid y defnydd o dir a rheoli tir gwledig. Mae'r cynnydd yn y perygl llifogydd yn y dyfodol yn tueddu i fod fwyaf mewn trefi ger genau afonydd, neu lle mae'r dylanwad llanw yn teithio i mewn i'r tir i fyny aber. Dyna lle mae effeithiau lefel y môr a chynnydd mewn glawiad yn cyfuno, gan arwain at lifogydd mwy cyson, dyfnach a helaethach yn y dyfodol. Mewn senarios yn y dyfodol, bydd yr ardaloedd sydd â llawer o amddiffynfeydd yn y dalgylch yn fwy agored i gael dŵr yn codi'n uwch, a gallai ardaloedd trefol pwysig megis Caerdydd, Pontypridd a Chaerffili brofi rhagor o lifogydd dŵr wyneb.

Gwaith diweddar i reoli perygl llifogydd yn y dalgylch

Gwnaethpwyd gwaith mapio a modelu helaeth yn ardal y Cymoedd er mwyn deall y perygl yn well ac i asesu safon yr amddiffynfeydd mewn lleoliadau allweddol ar hyn o bryd. Bydd y gwaith modelu hefyd yn goleuo ac yn gwella'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd.

Dewiswyd Cwm Rhondda fel astudiaeth beilot ar ddull ecosystemau newydd Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli'r holl agweddau ar yr amgylchedd gan gynnwys perygl llifogydd. Mae llawer o waith yn mynd ymlaen i adfer ehangder mawr o fawnog ar dir uchel i gynorthwyo i arafu cyfraddau'r dŵr ffo ac i reoli'r cyflymder y gall dŵr lifo drwy'r dalgylch cyn cyrraedd y rhwydweithiau afonydd. Mae yna adolygiad parhaus hefyd (Strategaeth Rheoli Asedau'r Rhondda) o'r asedau sy'n cynorthwyo i reoli llifogydd yn yr ardal, gan gynnwys adolygiad ehangach o effeithiau a manteision carthu.


Yn ddiweddar, datblygwyd gwasanaeth rhagolygon llifogydd newydd ar gyfer afon Taf, a dylai hyn fod yn gymorth i wella amseroedd arweiniol ar gyfer rhybuddion llifogydd yn y dalgylch a chaniatáu i bobl gymryd camau priodol i'w hamddiffyn eu hunain a'u heiddo.

Y prif gymunedau lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynllunio camau (Mae'r Cymunedau sydd wedi'u Duo yn y 40 Uchaf yng Nghymru)

Mae yna nifer o gymunedau yn y dalgylch lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn teimlo bod rhagor eto i'w wneud i reoli a lleihau perygl llifogydd. Mae Adran 2.2 o'r adroddiad hwn yn nodi sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith ar sail perygl fel y bo'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl yn cael eu trin yn gyntaf.

Tabl 3.18: Y prif gymunedau lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynllunio camau

| Label | Cymuned | Label | Cymuned |
|-------|------------|-------|----------------|
| 1 | Grangetown | 11 | Y Rhondda |
| 2 | Riverside | 12 | Rhisga |
| 3 | Duffryn | 13 | Trehafod |
| 4 | Butetown | 14 | Caerffili |
| 5 | Llaneirwg | 15 | Llanhiledd |
| 6 | Canton | 16 | Pont-y-meistr |
| 7 | Y Rhath | 17 | Llanbradach |
| 8 | Maerun | 18 | Merthyr Tudful |
| 9 | Lecwydd | 19 | Treorci |
| 10 | Tredelerch | 20 | Ystum Taf |



Allwedd

- Prif Afonydd
- Prif Gymunedau Cymoedd y De-ddwyrain
- Dalgylch Rheoli Cymoedd y De-ddwyrain
- Dalgylchoedd Rheoli Eraill RBD Hafren

0 1.5 3 4.5 6
 Kilometrau



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
 Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2013.
 © Crown copyright. All rights reserved.
 Natural Resources Wales, 100019741, 2013.

Ffigur 3.14: Y prif gymunedau yn nalgylch Cymoedd y De-ddwyrain

Tabl 3.19: Cymoedd y De-ddwyrain

Mae'r cynllun cyflenwi dalgylchoedd presennol yn nodi, ar sail cymunedau, beth yw'r mesurau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu cymryd eisoes; wrthi'n eu cymryd; neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn helpu i reoli'r perygl llifogydd i'r gymuned honno. Mae hyn yn darparu rhestr o fesurau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu eu cymryd o fewn y dalgylch hwn dros y blynyddoedd nesaf, yn ddibynnol ar asesu a chyfiawnhau'r gost.

| Lleoliad | Tarddiad | Mesurau | Y Math o Fesur | Cyswllt ag amcan Cymreig FRMP amcan | Amser- iad | Blaen-oriaeth | Statws y Mesur | Awdurdod cyfrifol |
|------------|-----------|---|----------------|-------------------------------------|------------|---------------|----------------|------------------------|
| Grangetown | Prif Afon | Asesu gofynion cludiant a rhoi cynnal a chadw ar waith. | M3 – Amddiffyn | 1 2 3 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Diweddarau'r Model Hydrolig | M3 – Amddiffyn | 3 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Codi ymwybyddiaeth am lifogydd yn y gymuned | M4 - Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel lawn | Arfaethedig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Riverside | Prif Afon | Asesu gofynion cludiant a rhoi cynnal a chadw ar waith. | M3 - Amddiffyn | 1 2 3 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Uwchraddio'r Model Hydrolig | M3 - Amddiffyn | 3 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | | | | | | | | |
|----------|-----------------|---|----------------|---------|----------|------------|--------------|------------------------|
| | | Cynnal y cynllun llifogydd cymunedol wedi'i gwblhau | M4 - Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Duffryn | Prif Afon | Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Canton | Prif Afon | Gwneud asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 3 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Gwella'r gwasanaeth rhybudd llifogydd presennol | M4 - Parod | 1 2 4 | Cyfredol | Uchel lawn | Arfaethedig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Butetown | Prif Afon | Asesu gofynion cludiant a rhoi cynnal a chadw ar waith. | M3 - Amddiffyn | 1 2 3 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Gwella'r gwasanaeth rhybudd llifogydd presennol | M4 - Parod | 1 2 4 | Cyfredol | Uchel lawn | Arfaethedig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Y Rhath | Prif Afon / Môr | Dylunio ac adeiladu cynllun lliniaru llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Cynnal y cynllun llifogydd cymunedol wedi'i gwblhau | M4 - Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | | | | | | | | |
|-----------|-----------------|---|----------------|---------|----------|------------|--------------|------------------------|
| Llaneirwg | Prif Afon / Môr | Dylunio ac adeiladu cynllun lliniaru llifogydd. | M3 – Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Treorci | Prif Afon | Gwneud asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | M3 – Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Uwchraddio'r Model Hydrolig | M3 – Amddiffyn | 3 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ystum Taf | Prif Afon | Asesu gofynion cludiant a rhoi cynnal a chadw ar waith. | M3 – Amddiffyn | 1 2 3 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Codi ymwybyddiaeth am lifogydd | M4 - Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Y Rhondda | Prif Afon | Gwneud asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | M3 – Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Diweddarau'r Model Hydrolig | M3 – Amddiffyn | 3 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Lecwydd | Prif Afon | Gwneud asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 3 8 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | | | | | | | | |
|---------------|-----------------|---|----------------|---------|----------|------------|--------------|------------------------|
| | | Codi ymwybyddiaeth o lifogydd ymysg y gymuned | M4 - Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rhisga | Prif Afon | Datblygu gwerthusiad cynllun ar gyfer y cynllun lliniaru llifogydd. | M3 – Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Gwella'r gwasanaeth rhybudd llifogydd presennol | M4 - Parod | 1 2 4 | Cyfredol | Uchel lawn | Arfaethedig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Gwneud gwelliannau hydrometrig a thelemetrig | M4 - Parod | 1 3 4 | Cyfredol | Uchel lawn | Arfaethedig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Maerun | Prif Afon / Môr | Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd. | M3 – Amddiffyn | 1 2 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Tredelerch | Prif Afon / Môr | Dylunio ac adeiladu cynllun lliniaru llifogydd. | M3 – Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Pont-y-meistr | Prif Afon | Datblygu gwerthusiad cynllun ar gyfer y cynllun lliniaru llifogydd. | M3 – Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Trehafod | Prif Afon | Gwneud asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | M3 – Amddiffyn | 1 2 3 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | | | | | | | | |
|-------------|-----------|---|----------------|---------|----------|------------|--------------|------------------------|
| | | Diweddarau'r Model Hydrolig | M3 – Amddiffyn | 3 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Cynnal y cynllun llifogydd cymunedol wedi'i gwblhau | M4 - Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llanhilledd | Prif Afon | Cynnal asesiad ar y strwythurau presennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | M3 – Amddiffyn | 1 2 3 | Cyfredol | Uchel lawn | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Gwneud gwelliannau hydrometrig a thelemetrig | M4 - Parod | 1 3 4 | Cyfredol | Uchel lawn | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Caerffili | Prif Afon | Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | M3 - Amddiffyn | 1 2 3 8 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Gwneud gwelliannau hydrometreg a thelemetreg | M4 - Parod | 1 3 4 | Cyfredol | Uchel lawn | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Diweddarau Model Hydrolig | M3 – Amddiffyn | 3 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llanbradach | Prif Afon | Gweithredu mesurau amgen i leihau perygl. | M3 – Amddiffyn | 1 2 8 | Cyfredol | Uchel | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | | | | | | | | |
|----------------|-----------|---|------------|---------|----------|------------|--------------|------------------------|
| Merthyr Tudful | Prif Afon | Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd. | M2 – Atal | 1 2 3 8 | Cyfredol | Cymhedrol | Heb Ddechrau | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Codi ymwybyddiaeth am lifogydd o fewn y gymuned | M4 - Parod | 1 4 5 | Cyfredol | Uchel lawn | Mynd ymlaen | Cyfoeth Naturiol Cymru |

Hoffech chi ddysgu rhagor amdanom ni neu am eich amgylchedd?

Asiantaeth yr Amgylchedd

Ffoniwch ni ar: 03708 506 506 (Dydd Llun – Dydd Gwener, 8am - 6pm)

E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk

Neu ewch i'n gwefan: www.gov.uk/environment-agency

Llinell digwyddiadau: 0800 807 060 (24 awr)

Llinell llifogydd: 0345 988 1188 / 0845 988 1188 (24 awr)

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ffoniwch ni ar: 0800 065 3000 (Dydd Llun – Dydd Gwener, 8am - 6pm)

E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Neu ewch i'n gwefan: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Llinell digwyddiadau: 0800 807 060 (24 awr)

Llinell llifogydd: 0345 988 1188 (24 awr)